# Adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC

# Penderfyniad terfynol - syndiceiddio cynnnwys ar alw'r BBC

29 Chwefror 2012

Sicrhau bod pawb sy'n talu ffi'r drwydded
yn cael y gorau o'r BBC

BBC Trust

# Cynnwys

BBC Trust


**Crynodeb** 2

**Cefndir** 2

**Adolygiad** 2

**Y penderfyniad terfynol** 2

**1. Cyflwyniad** 5

1.1. Rôl yr Ymddiriedolaeth 5

1.2. Cefndir syndiceiddio 5

1.3. Cyd-destun allanol 6

1.4. Agwedd y BBC at syndiceiddio 7

**2. Adolygiad yr Ymddiriedolaeth o syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC** 9

2.1. Llinell amser 9

2.2. Lansio'r adolygiad - Mai 2010 9

2.3. Casgliadau dros dro – Ionawr 2011 10

2.4. Ymagwedd ddiwygiedig yr Ymddiriedolaeth – Tachwedd 2011 11

2.5. Rhesymwaith y polisi diwygiedig 15

**3. Gwaith pellach ers cyhoeddi ein polisi diwygiedig** 17

3.1. Cyflwyniad 17

3.2. Ystyried ymatebion rhanddeiliaid 17

3.3. Y rhesymwaith terfynol 29

3.4. Casgliadau 31

**4. Penderfyniad terfynol yr Ymddiriedolaeth** 32

4.1. Dyletswyddau'r Ymddiriedolaeth 32

4.2. Y polisi terfynol a safbwynt yr Ymddiriedolaeth 33

4.3. Canllawiau syndiceiddio 33

4.4. Trefniadau pontio 33

**Atodiad 1. Polisi ar gyfer syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC** 34

**Syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC** 34

**Crynodeb**

# Cefndir

Yn 2007 cymeradwyodd Ymddiriedolaeth y BBC gynigion ar-alw gan Fwrdd Gweithredol y BBC a lansiodd iPlayer y BBC ac fe gyhoeddodd bolisi ynglŷn â syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC i drydydd partïon.

Ers ei lansio, mae'r BBC wedi mireinio a datblygu'r iPlayer ac erbyn hyn mae'n ffordd boblogaidd iawn o gael gafael ar gynnwys ar-alw'r BBC. Yr iPlayer yw'r prif ddull o syndiceiddio cynnwys y BBC ac mae ar gael ar amrywiaeth o blatfformau ac ar oddeutu 300 o ddyfeisiau. Gan fod cynnwys yn cael ei syndiceiddio mewn byd cyfryngol a thechnolegol sy'n prysur newid, aethom ati i 2010 i adolygu'r polisi hwn a'i ddiwygio.

# Adolygiad

Lansiwyd yr adolygiad ym mis Mai 2010. Cyflwynodd Bwrdd Gweithredol y BBC gynigion ac ymgynghori yn eu cylch. Cafwyd dros 2000 o ymatebion gan dalwyr ffi'r drwydded a sefydliadau, a gwnaethpwyd ystod o waith ar ben hynny i ddatblygu polisi drafft.

Ym mis Ionawr 2011, cyhoeddwyd ein casgliadau dros dro a pholisi drafft. Cynhaliwyd ymgynghoriad pedair wythnos er mwyn mesur barn y cyhoedd a rhanddeiliaid. Er bod yr ymgynghoriad hwn wedi dangos bod consensws ynglŷn â phwysigrwydd syndiceiddio, roedd llai o gytundeb o lawer ynglŷn â sut y gellid cyflawni hyn, a chafwyd beirniadaeth gan sawl rhanddeiliad.

Ac ystyried y pryderon a godwyd, gwnaethom ragor o waith er mwyn diwygio'n safbwynt. Roedd hyn yn cynnwys ystod o waith a oedd yn amrywio o ddeall pryderon rhanddeiliaid, i ddadansoddi gwerth cyhoeddus ac asesu opsiynau amgen.

Ar sail y gwaith hwn, datblygodd yr Ymddiriedolaeth bolisi syndiceiddio diwygiedig. Roedd y dull diwygiedig hwn yn canolbwyntio ar egwyddorion wynebu'r-cyhoedd y mae'n rhaid i drefniadau syndiceiddio'r BBC gydymffurfio â hwy. Roedd y dull hwn yn ddull mwy hyblyg hefyd oherwydd nid oeddem yn mynnu rhagor ei bod yn rhaid sicrhau safonau technegol penodol ar gyfer syndiceiddio. Er ein bod yn argymell mai cynnyrch safonol yr iPlayer oedd y ffordd orau o wireddu'r egwyddorion hyn ar gyfer y gynulleidfa, roeddem yn derbyn y gallai fod amgylchiadau arbennig a fyddai'n cyfiawnhau gwyro oddi wrth y dull hwn.

Ymgynghorwyd ynglŷn â'r polisi diwygiedig hwn ym mis Tachwedd 2011 er mwyn rhoi cyfle i randdeiliaid a thalwyr ffi'r drwydded godi unrhyw bwyntiau terfynol cyn i'r Ymddiriedolaeth benderfynu'n derfynol a ddylai gymeradwyo'r polisi. Cyflwynodd dau ar bymtheg o randdeiliaid ac unigolion sylwadau. Ac eithrio nifer fach o bryderon, cafwyd cefnogaeth gyffredinol i'r polisi diwygiedig hwn.

# Y penderfyniad terfynol

Mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi cymeradwyo'r polisi diwygiedig hwn sy'n egluro'r dull a ddefnyddir i syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC.

Bwriad y polisi hwn yw sicrhau bod syndiceiddio'n digwydd er budd cyffredinol talwyr ffi'r drwydded a bod y deunydd y mae'r polisi'n ymwneud ag ef yn cael ei syndiceiddio lle bo

hynny er budd iddynt. Credwn fod gwerth cyhoeddus yn gyffredinol i syndiceiddio a'i bod er budd talwyr ffi'r drwydded i allu cael gafael ar gynnwys ar-alw'r BBC ar gynifer o blatfformau a dyfeisiau ag sy'n bosibl.

Wrth wraidd polisi'r Ymddiriedolaeth, mae'r egwyddorion wynebu'r-cyhoedd y bwriedir iddynt sicrhau gwerth cyhoeddus a chyflawni'r dibenion cyhoeddus. Dylai pob trefniant syndiceiddio gael ei gynllunio gyda golwg ar sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded:

a) Allu cael gafael yn rhwydd ar adeg hwylus ar holl ystod cynnwys y BBC[1]

b) Gallu dod o hyd i gynnwys y BBC yn gyflym ac yn rhwydd ar blatfformau a dyfeisiau trydydd partïon, er enghraifft, drwy gysylltu â chynnwys neu gael gafael arno drwy gyfrwng systemau llywio trydydd parti, megis EPG neu chwilio.

c) Profi cynnwys sydd o dan reolaeth olygyddol gan y BBC, ac sy'n caniatáu i'r BBC eu tywys at gynnwys arall na fyddent o reidrwydd yn cael eu denu ato'n naturiol ond a allai fod yn gyfrwng gwybodaeth a mwynhad iddynt

d) Gallu gweld yn rhwydd mai cynnwys y BBC ydyw a gallu gwahaniaethu rhyngddo a chynnwys o ffynonellau eraill

e) Profi cynnwys y BBC mewn mannau ac mewn cyd-destunau priodol yn unig

f) Cael profiad o safon uchel (e.e. rhwydd ei ddefnyddio, ansawdd y lluniau a'r sain)

g) Gallu cael gafael ar gynnwys yn ddi-dâl (sy'n golygu ar lefel yr haen mynediad neu'r hyn sy'n cyfateb iddi yng nghyswllt gwasanaethau tanysgrifio), a chynnwys sydd heb hysbysebion a nawdd

h) Gallu cael gafael ar nodweddion rheolaeth rhieni a hygyrchedd, megis isdeitlau a sainddisgrifio, a'r rheini sy'n gysylltiedig â'r ddewislen a'r rhyngwyneb defnyddiwr

Wrth restru'r egwyddorion hyn, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn ceisio gorfodi un ateb technegol yn unig. Serch hynny, credwn mai'r ffordd orau o wireddu'r egwyddorion hyn fydd cynnig i ddarpar bartneriaid lwybr uniongyrchol at holl ystod cynnwys y BBC, drwy eu platfform neu eu dyfais, o fewn amgylchedd y BBC. Ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu un o gynhyrchion safonol y BBC, megis yr iPlayer, a ddarperir dros y rhyngrwyd.

Rydym yn derbyn y gall amgylchiadau godi o bryd i'w gilydd o ran ymarferoldeb technegol neu ddichonolrwydd economaidd, a fydd yn cyfiawnhau trefniadau arbennig sy'n defnyddio model gwahanol. Serch hynny, bydd angen i unrhyw drefniant arbennig o'r fath gael ei seilio ar resymau clir iawn ac nid yw'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd achosion o'r fath nac yn gyffredin nac ychwaith yn hawdd eu cyfiawnhau.

---

[1] Fel rhan o'i strategaeth ehangach, gall y BBC syndiceiddio cynhyrchion eraill hefyd sy'n cael eu dethol yn olygyddol gan y BBC, sy'n ategu ei chynnig ehangach ac sy'n eistedd ochr yn ochr â mynediad at ystod lawn y rhaglenni sydd ar gael ar gynnyrch safonol yr iPlayer, er enghraifft un o gynhyrchion syndiceiddio newyddion y BBC. Byddai cynhyrchion o'r fath yn syndiceiddio cynnwys a ddetholid yn olygyddol gan y BBC yn ogystal â'r ystod lawn a ddarperid gan iPlayer y BBC. Rhaid iddynt gydymffurfio â fframwaith y trwydded gwasanaeth ac â'r asesiadau rheoleiddio perthnasol fel y maent yng Nghytundeb y BBC.

Wrth syndiceiddio cynnwys hyd-llawn teledu'r BBC rydym yn disgwyl i'r holl egwyddorion a restrir uchod gael eu cyflawni. Serch hynny, ac ystyried sut y defnyddir radio ar-alw a chynnwys ffurf-fer, rydym wedi rhestru rhai o'r egwyddorion nad ydynt mor berthnasol yn y cyd-destun hwnnw.

Mae'r polisi llawn i'w weld yn Atodiad 1 o'r ddogfen hon ac fe'i cyhoeddir hefyd ar wefan y BBC. Daw i rym ar unwaith ac mae'n disodli'r polisi blaenorol a gyhoeddwyd yn 2007.

Ar ôl cyhoeddi'r polisi hwn, bydd Bwrdd Gweithredol y BBC yn paratoi canllawiau syndiceiddio sy'n egluro sut mae'n bwriadu rhoi'r polisi terfynol ar waith. Cymeradwyir y canllawiau hyn gan Ymddiriedolaeth y BBC a'u cyhoeddi ar wefan y BBC o fewn tri mis.

# 1. Cyflwyniad

## 1.1. Rôl yr Ymddiriedolaeth

1.1.1. Ar ôl cymeradwyo cynigion ar-alw'r BBC yn 2007, cytunodd Ymddiriedolaeth y BBC (yr Ymddiriedolaeth o hyn ymlaen) i fabwysiadu a chyhoeddi polisi ar ddarparu cynnwys ar-alw'r BBC ar gyfer trydydd partïon; cyhoeddwyd hwn ym mis Awst 2007.

1.1.2. Ein nod wrth adolygu a diwygio polisi 2007 oedd parhau i sicrhau buddiannau gorau cynulleidfaoedd drwy hwyluso syndiceiddio cynnwys y BBC ar raddfa eang, ac ar yr un pryd, restru'r egwyddorion hynny sy'n bwysig yn ein barn ni er mwyn sicrhau gwerth cyhoeddus. Rydym hefyd wedi ceisio cyflawni dyletswyddau penodol a restrir yn y Siarter a'r Cytundeb. Mae gennym bedwar amcan, sef:

- Gweithredu er budd y cyhoedd
- Sicrhau bod y dibenion cyhoeddus yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol a sicrhau gwerth cyhoeddus
- Ystyried yn briodol sut y gallai'r polisi effeithio ar y farchnad ehangach
- Rhoi sylw i ddyletswyddau cyffredinol yr Ymddiriedolaeth a'r gofynion rheoleiddio

1.1.3. Yng nghyd-destun yr adolygiad hwn, rôl yr Ymddiriedolaeth yw mabwysiadu datganiad polisi ynglŷn â syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC a dal Bwrdd Gweithredol y BBC (Y Bwrdd Gweithredol o hyn ymlaen) yn gyfrifol am gydymffurfio â'r datganiad hwnnw. Gwaith y Bwrdd Gweithredol yw ystyried a gwneud trefniadau syndiceiddio gyda thrydydd partïon fesul achos, yn unol â'r polisi.

1.1.4. Mae'r ddogfen hon yn cynnwys polisi terfynol yr Ymddiriedolaeth ar syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC (yn Atodiad 1) a rhesymu'r Ymddiriedolaeth wrth ei lunio.

1.1.5. Nid yw'r adolygiad hwn (na'r polisi sy'n deillio ohono) ond yn berthnasol i syndiceiddio cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar-alw'r BBC.[2] Nid yw ond yn ymwneud â chynnwys y Deyrnas Unedig ac nid yw'n berthnasol i ddeunydd a ddarperir drwy weithgareddau masnachol y BBC.

## 1.2. Cefndir syndiceiddio

1.2.1. Syndiceiddio yw'r ffordd y bydd cynnwys darlledu'n cael ei ddarparu ar gyfer cynulleidfaoedd. Mewn byd analog, roedd hwn yn fater syml; i'r BBC, un seilwaith rhwydwaith darlledu teledu a oedd ar gael, a hwnnw o dan ei rheolaeth. Er mwyn darparu cynnwys, y cyfan yr oedd angen ei wneud oedd trosglwyddo neges analog i set deledu; byddai gwasanaethau naill ai'n cael eu 'defnyddio' wrth iddynt gael eu darlledu, neu ni fyddent yn cael eu defnyddio o gwbl.

1.2.2. Serch hynny, yn sgil y rhyngrwyd, ac, yn enwedig, yn sgil y ffaith bod cynnwys ar gael ar-alw, mae'r proses syndiceiddio'n fwy cymhleth. Mae nifer gynyddol y

[2] Er enghraifft, deunydd 'cyfle i wylio eto' y gellir cael gafael arno drwy iPlayer y BBC.

platfformau a'r dyfeisiau[3] sydd ar gael wedi gosod her sylweddol i ddarlledwyr sy'n ceisio sicrhau bod eu cynnwys yn cyrraedd cynulleidfa mor eang â phosibl.

## 1.3. Cyd-destun allanol

1.3.1. Mae'r byd darlledu yn y Deyrnas Unedig yn mynd drwy gyfnod o newid cyflym; mae cydgyfeirio'n cyflymu; ac yn sgil ehangu'r band eang a DVRs mae dewis a rheolaeth bellach yn cael eu trosglwyddo i ddwylo'r defnyddiwr. Mae'r newid o analog i ddigidol bron wedi'i gwblhau; mae 25 miliwn o aelwydydd y Deyrnas Unedig (95%) bellach yn gallu derbyn gwasanaeth digidol ar un set deledu neu ragor.[4] Mae 67% o aelwydydd y Deyrnas Unedig[5] bellach yn manteisio ar fand eang, a'r gwasanaeth hwnnw felly'n agosáu at ei aeddfedrwydd. Mae hyn yn sbarduno'r galw am wasanaethau 'cyfle arall i wylio', a hynny yn ei dro'n denu sylw at y dyfeisiau a'r platfformau a ddefnyddir i gael gafael ar y gwasanaethau hyn.

1.3.2. Er mai gwylio rhaglenni teledu'n fyw sydd orau gan y rhan fwyaf o bobl o hyd, a hynny o dipyn hefyd, mae'r ffaith bod y rhyngrwyd yn gyflymach ac yn perfformio'n well wedi golygu bod apêl cynigion ar-alw yn ehangach. Yn ôl Ofcom, bydd 35% o unigolion yn defnyddio'u cysylltiad band eang i fanteisio ar wasanaethau 'cyfle arall i wylio' rhaglenni teledu, a bydd oddeutu 20% o'r boblogaeth sydd ar lein yn gwneud hynny bob mis.[6]


1.3.3. Er mwyn ymateb i hyn, mae gwneuthurwyr dyfeisiau electronig i ddefnyddwyr wedi datblygu eu platfformau; bydd llawer o setiau teledu erbyn hyn cynnwys cysylltiad band eang, sy'n golygu bod gwylwyr yn gallu manteisio ar gynnwys a chymwysiadau[7] ar y we (gwerthwyd bron miliwn o'r dyfeisiau hyn yn 2010 ac mae'r broses brynu honno'n cyflymu[8]). Mae blychau pen-set, dyfeisiau symudol, cyfrifiaduron tabled a chonsolau gemau'n cynnig nodweddion tebyg.

1.3.4. Adlewyrchir y duedd gyffredinol hon yn yr amrywiaeth o ddyfeisiau a defnyddir yn gyffredin i fanteisio ar wasanaethau cyfle arall i wylio/gwrando. Roedd y cynigion cynnar yn canolbwyntio ar ddarparu gwasanaeth ar gyfrifiaduron personol: ond pan lansiwyd yr iPlayer ar blatfform Virgin Media yn 2008 dyna oedd y cam a gadarnhaodd apêl cynnig a oedd yn seiliedig ar deledu. Erbyn mis Gorffennaf 2009, roedd 98% o'r holl ddefnydd ar yr iPlayer yn digwydd ar dri phlatfform (Virgin Media, cyfrifiaduron a dyfeisiau symudol).[9] Ond erbyn mis Medi 2011, roedd mwy o amrywiaeth, gyda lefelau gwylio ar y Nintendo Wii, y Sony PlayStation 3 a dyfeisiau tabled yn debyg i'r lefelau gwylio ar ddyfeisiau symudol (ffigur 1).

---

[3] Megis Cyfrifiaduron Personol, ffonau symudol, iPads, Setiau teledu integredig, blychau pen-desg a llu o ddyfeisiau eraill sy'n gysylltiedig â setiau teledu, gan gynnwys consolau gemau, chwaraewyr Blu-Ray a'r blychau diweddaraf sy'n cynnig cysylltiad â'r rhyngrwyd drwy'r teledu.
[4] UK consumer e-commerce trends [2011-064], Enders Analysis.
[5] Cysylltiadau band eang sefydlog, Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu, Ofcom, Awst 2011.
[6] Adroddiad y Farchnad Gyfathrebu, Ofcom Awst 2011.
[7] Yn 2010, lansiodd pob un o'r prif wneuthurwyr setiau teledu a oedd yn cynnwys y gallu i gysylltu â'r rhyngrwyd (yn bennaf drwy gymwysiadau a oedd yn cynnig gwasanaethau megis LoveFilm, YouTube a'r BBC iPlayer, yn ogystal â gwasanaethau'r gwneuthurwyr eu hunain megis Qriocity Sony neu Samsung Apps), Ofcom Communications Maret Report, Awst 2011.
[8] Gwerthwyd bron miliwn o setiau teledu a oedd yn cynnig cysylltiad â'r rhyngrwyd yn 2012, Ofcom Communications Market Report, Awst 2011.
[9] Ffynhonnell: iStats y BBC.

## Ffigur 1: Cyfran yr iPlayer o geisiadau am raglenni yn ôl math o ddyfais




**Ffynhonnell:** iStats y BBC. Mae dyfeisiau IPTV yn cynnwys blychau pen-desg sydd wedi'u cysylltu â'r we, chwaraewyr DVD a setiau teledu integredig, gan gynnwys BT Vision a Virgin TIVo; y system etifeddol yn unig yw Virgin cable.

## 1.4. Agwedd y BBC at syndiceiddio

1.4.1. Mae'r BBC yn ymwneud ag amrywiaeth o weithgareddau syndiceiddio, gyda'r nod o sicrhau bod ei chynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar gael yn eang, a'i bod yn gyson â'i dyletswyddau o dan y Siarter a'r Cytundeb. Gellir rhannu'r gweithgarwch yn fras yn bedwar prif faes – ac mae'r polisi syndiceiddio'n ymdrin â phob un o'r rheini:

- Syndiceiddio asedau llawn (cynnwys y BBC - rhaglen neu glip ac ati)
- Dosbarthu asedau hyrwyddo
- Ymwreiddio
- Cysylltu

1.4.2. Yn y lle cyntaf, aeth y BBC ati mewn dwy brif ffordd i syndiceiddio'i chynnwys; yr iPlayer[10] a chytundebau cynnwys-yn-unig, lle y darparwyd pecyn cyfyngedig y gallai pobl gael gafael arno drwy blatfformau trydydd parti.[11]

---

[10] Cymhwysiad ar-alw a adeiladwyd, a reolid ac a gynhelid gan y BBC a oedd yn caniatáu i unrhyw ddyfais (cyfrifiaduron pen-desg a gliniaduron yn bennaf) a ddefnyddiai Windows i gael gafael ar iPlayer y BBC a gwylio cynnwys PSG y BBC ar alw.

[11] Roedd hyn ar sail treialu cyn 2007 ac yna'n ffurfiol yn 2007 a 2008, i (gwmnïau a elwir bellach yn) TalkTalk TV, BT Vision a Virgin Media.

1.4.3. Ar ôl lansio'r iPlayer yn 2007, mae'r BBC wedi ei fireinio a'i ddatblygu. Erbyn heddiw, mae'n brif un o'r prif gyfryngau ar gyfer syndiceiddio cynnwys ar-alw, ac mae ar gael ar ystod o blatfformau ac oddeutu 300 o ddyfeisiau, o ffonau symudol a chonsolau gemau i setiau teledu wedi'u cysylltu â'r we a chyfrifiaduron tabled. Mae'r rhan fwyaf o'r rhain wedi'u seilio ar wedd a theimlad tebyg, a'r rheini fwy neu lai'r un fath â'r ddarpariaeth wreiddiol ar gyfrifiaduron personol, ac yn cynnig llwybr at ystod lawn cynnwys ar-alw'r BBC.

1.4.4. Dyma oedd cefndir yr adolygiad a gynhaliodd yr Ymddiriedolaeth o bolisi 2007. Dilynwyd sawl cam wrth i'r Ymddiriedolaeth fynd ati i gynnal yr adolygiad. Mae'r ddogfen hon yn egluro'r gwaith y mae'r Ymddiriedolaeth wedi'i wneud a hefyd yn egluro ein penderfyniad a'n polisi terfynol.

# 2. Adolygiad yr Ymddiriedolaeth o syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC

## 2.1. Llinell amser

2.1.1. Wrth adolygu'r polisi syndiceiddio ar-alw, mae'r Ymddiriedolaeth wedi dilyn nifer o gamau, fel y'u dangosir yn nhabl 1 ac fe ddisgrifir y rheini'n fwy manwl wedyn.

**Tabl 1: Trosolwg ar amserlen adolygu'r trefniadau syndiceiddio**

| Dyddiad | Gweithgarwch |
|---|---|
| Mai 2010 | Yr Ymddiriedolaeth yn lansio'r adolygiad syndiceiddio ac yn ymgynghori ynglŷn â chynigion y Bwrdd Gweithredol |
| Gor 2010 | Yr ymgynghoriad cyntaf yn dod i ben |
| Gor 2010 – Ion 2011 | Yr Ymddiriedolaeth yn datblygu polisi a chasgliadau dros dro |
| Ion 2011 | Yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi'r polisi a'r casgliadau dros dro ac yn ymgynghori yn eu cylch |
| Chwef 2011 | Yr ail ymgynghoriad yn dod i ben |
| Chwef – Tach 2011 | Yr Ymddiriedolaeth yn datblygu cynigion polisi diwygiedig |
| Tach 2011 | Yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi'r cynigion polisi diwygiedig ac yn ymgynghori yn eu cylch |
| Rhag 2011 | Y trydydd ymgynghoriad yn dod i ben |
| Ion – Chwef 2012 | Yr Ymddiriedolaeth yn ymateb i'r ymgynghori ac yn paratoi ei benderfyniad terfynol a pholisi newydd |
| Chwef 2012 | Yr Ymddiriedolaeth yn cyhoeddi polisi newydd |

## 2.2. Lansio'r adolygiad - Mai 2010

2.2.1. Mae datblygiadau technolegol a disgwyliadau'r gynulleidfa wedi newid yn sylweddol ers cyhoeddi'r polisi gwreiddiol ynglŷn â darparu cynnwys ar-alw'r BBC ar gyfer trydydd partïon yn 2007. Mae'r ystod o ddyfeisiau sy'n gallu dangos fideo ar-alw wedi tyfu'n gyflym ac erbyn hyn maent yn cael eu gwylio yn y brif ffrwd yn

hytrach na dim ond gan fabwysiadwyr cynnar (er bod y nifer yn dal yn gyfran fach o'i chymharu â gwylio llinellol drwyddo draw).

2.2.2. Felly, aeth yr Ymddiriedolaeth ati i adolygu'r polisi gwreiddiol[12]; cyflwynodd y Bwrdd Gweithredol gynigion ac ymgynghorodd yr Ymddiriedolaeth ynglŷn â'r rhain rhwng 25 Mai a 21 Gorffennaf 2010. Roedd y cynigion yn argymell cydgrynhoi (drwy gyfrwng nifer gyfyngedig o fersiynau safonol o'r iPlayer) fel ffordd o gadw rheolaeth ar y cynnwys a'r cyd-destun. Ym marn y Bwrdd Gweithredol, roedd hyn yn hollbwysig er mwyn diogelu buddiannau talwyr ffi'r drwydded ac er mwyn sicrhau cydnabyddiaeth i'r brand ac amlygrwydd priodol iddo. Dadleuai y byddai polisi llai caeth nid yn unig yn fwy costus ond y byddai hefyd yn gwanhau gallu'r BBC i sicrhau gwerth cyhoeddus.

2.2.3. Cafwyd 2085 o ymatebion i'r ymgynghori gan aelodau'r cyhoedd ac 13 gan randdeiliaid yn y diwydiant. Roedd unigolion a sefydliadau ill dau'n gyffredinol gadarnhaol eu hagwedd ynglŷn â pharhau i ddarparu cynnwys ar-alw'r BBC ar gyfer trydydd partïon. Roedd eu pryderon yn ymwneud yn bennaf â sut y darperid cynnwys o'r fath a'r perygl y byddai'r dull a gynigid gan y Bwrdd Gweithredol yn cyfyngu ar ddarparu cynnwys y BBC ar raddfa eang. Fel rhan o'i adolygiad, comisiynydd yr Ymddiriedolaeth adroddiad technegol[13] er mwyn deall yn well y materion a godwyd. Hefyd, cynhaliodd gyfres o gyfarfodydd â rhanddeiliaid i drafod eu pryderon.

## 2.3. Casgliadau dros dro – Ionawr 2011

2.3.1. Ym mis Ionawr 2011, cyhoeddodd yr Ymddiriedolaeth ei chasgliadau dros dro a'i pholisi dros dro newydd.[14] Mae'r ddogfen hon i'w gweld yn adran tystiolaeth ategol ein gwefan.[15] Seiliwyd y polisi hwn ar dair prif egwyddor:

- Gallu'r BBC i gadw rheolaeth ar y cyd-destun lle y defnyddir ei chynnwys ar-alw hyd-llawn, drwy gyfrwng 'cynnyrch cydgrynhoi' y BBC, sef yr iPlayer ar hyn o bryd.
- Datblygu nifer o fersiynau safonol o'r iPlayer, wedi'u seilio ar dechnoleg HTML, Flash ac MHEG, y gallai gwneuthurwyr a gweithredwyr platfformau eu defnyddio'n eang, gan fanteisio ar gynnwys gweinyddion y BBC drwy'r rhyngrwyd
- Creu, dan amgylchiadau eithriadol lle na allai rhanddeiliad fabwysiadu cynnyrch safonol, ateb sydd wedi'i deilwra'n arbennig, gan gadw mewn cof werth cyhoeddus, cyflawni dibenion cyhoeddus y BBC a'r effaith ar y farchnad ehangach. Y rhanddeiliad fyddai'n ysgwyddo'r costau datblygu a chynnal a chadw

2.3.2. Cynhaliodd yr Ymddiriedolaeth ymgynghoriad pedair wythnos, a daeth honno i ben ar 9 Chwefror 2011. Cyflwynodd cyfanswm o 21 o ymatebwyr[16] sylwadau am

---

[12] Er mwyn bod yn glir ynghylch y gwahanol bolisïau syndiceiddio ar-alw y cyfeirir atynt yn y ddogfen hon, sylwer bod: 'polisi gwreiddiol' yn cyfeirio at hwnnw a gyhoeddwyd ym mis Awst 2007, 'polisi/cynigion dros dro' yn cyfeirio at y rheini a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011, 'polisi / cynigion diwygiedig' yn cyfeirio at y rheini a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011.

[13] O Screen Digest i'r dull technegol arfaethedig a ragwelir yng nghynigion y Bwrdd Gweithredol.

[14] Seiliwyd y polisi drafft ar gynigion a ddatblygwyd ac a gyflwynwyd gan y Bwrdd Gweithredol, a ystyriwyd ac a adolygwyd gan yr Ymddiriedolaeth.

[15] http://www.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/on_demand/2011/provisional_conclusions.pdf

[16] Ystod o randdeiliaid, aelodau'r cyhoedd ac ymatebwyr o'r diwydiant.

y casgliadau dros dro a'r polisi dros dro. Gwelsom fod consensws ynglŷn â phwysigrwydd syndiceiddio ond llai o gytundeb o lawer ynglŷn â sut y gellid cyflawni hyn. Er bod rhywfaint o gefnogaeth iddo (yn enwedig ym meysydd hygyrchedd) roedd llawer o ymatebwyr (gweithredwyr y platfformau'n bennaf) yn feirniadol o'r polisi dros dro.

## 2.4. Ymagwedd ddiwygiedig yr Ymddiriedolaeth – Tachwedd 2011

2.4.1. A chofio'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid ynglŷn ag agweddau ar y polisi dros dro, penderfynwyd gwneud rhagor o waith er mwyn llunio barn a pholisi diwygiedig. Aeth y gwaith hwn rhagddo rhwng mis Chwefror 2011 a mis Tachwedd 2011. Bryd hynny, cyhoeddwyd cynigion ein polisi diwygiedig ac ymgynghori yn eu cylch. Dyma'r gwaith a wnaethom:

- Cyfres o gyfarfodydd â rhanddeiliaid er mwyn deall eu pryderon yn well
- Ymchwil cynradd i'r materion technegol er mwyn cael cyd-destun a deall y sefyllfa
- Rhagor o waith i ddadansoddi ac asesu'r gwerth cyhoeddus gan ddefnyddio fframwaith ansawdd, cyrhaeddiad, effaith a gwerth am arian yr Ymddiriedolaeth
- Dadansoddi'r effaith gystadleuol a'r effaith ar y farchnad
- Asesu opsiynau amgen

2.4.2. Yn sgil y gwaith hwn, llwyddodd yr Ymddiriedolaeth i ystyried sut y gellid addasu'r ffordd yr oedd y polisi dros dro wedi datblygu yn ystod cam cyntaf ein hadolygiad er mwyn sicrhau gwell gwerth cyhoeddus, gan roi sylw dyledus i bob pryder perthnasol.

2.4.3. Isod, cyflwynir trosolwg cryno o'r gwaith sydd wedi'i wneud i ddatblygu ein cynigion polisi diwygiedig. Serch hynny, mae disgrifiad llawn o'r gwaith hwn i'w weld yn y ddogfen adolygu: Syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC, adrannau 4.6 i 4.7, a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011.[17]

<u>Pryderon rhanddeiliaid</u>[18]

2.4.4. Wrth ddadansoddi ymatebion rhanddeiliaid i'r ymgynghori ynglŷn â'r polisi dros dro ynghyd â chyfarfodydd dilynol â rhanddeiliaid perthnasol, gwelwyd bod eu pryderon yn canolbwyntio ar nifer o brif feysydd:

- Gwrthwynebiad mewn egwyddor i gydgrynhoi
- Her i unrhyw ragdybiaeth mai'r iPlayer oedd yr unig ffordd o sicrhau gwerth cyhoeddus a phryder y byddai dull mor gyfyngol yn tanseilio cyrhaeddiad.
- Beirniadaeth bod yr Ymddiriedolaeth heb ystyried opsiynau amgen
- Pryderon ynglŷn â'r effaith gystadleuol a'r effaith ar y farchnad

[17] http://www.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/on_demand/2011/revised/review_on_demand_syndication.pdf
[18] Mae hyn i'w weld yn llawn yn adran 4.6 o adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC - Syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC http://www.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/on_demand/2011/revised/review_on_demand_syndication.pdf

- Beirniadaeth bod y polisi dros dro'n rhy gyfyngol o ran mynnu bod fersiynau safonol yn cael eu defnyddio
- Beirniadaeth ar yr agwedd at eithriadau
- Ofn y gallai'r polisi dros dro rwystro arloesi
- Anniddigrwydd ynglŷn â'r gofyniad ynglŷn ag darpariaeth dros y top
- Galw am sicrhau ei bod yn orfodol darparu metadata
- Dryswch ynglŷn â bod cynnwys ffurf-fer yn cael ei drin yn wahanol
- Galw am ddarpariaethau clir yn y polisi ynglŷn â hygyrchedd

2.4.5. Ar sail pryderon rhanddeiliaid yn rhannol, newidiwyd ein polisi dros dro gan fabwysiadu dull diwygiedig, mwy hyblyg. Er ei bod yn amlwg na allem liniaru'r holl bryderon a godwyd gan randdeiliaid, a hynny'n rhannol oherwydd bod barn rhai rhanddeiliaid yn gwbl groes i'w gilydd o ran y ffordd orau o fynd ati, credwn fod y dull diwygiedig yn mynd i'r afael â llawer o'u pryderon.

Asesu'r gwerth cyhoeddus[19]

2.4.6. Wrth inni asesu'r gwerth cyhoeddus, yr awgrym oedd bod ein hagwedd ddiwygiedig at syndiceiddio yn ategu'r dibenion cyhoeddus ac yn eu hybu. Roedd hynny'n arbennig o berthnasol i'r chweched diben, sef, helpu i sicrhau budd i'r cyhoedd yn sgil technolegau a gwasanaethau cyfathrebu newydd. Yn wir, dim ond drwy sicrhau bod cynulleidfaoedd yn gallu manteisio ar ei gwasanaethau mewn ystod o ffyrdd hwylus a chost-effeithiol y gall y BBC gyflawni ei dyletswyddau penodol o dan y Siarter a'r Cytundeb.[20] At hynny, wrth dywys pobl at gynnwys newydd a gwerthfawr, mae'r polisi diwygiedig yn cefnogi'r ddau ddiben cyntaf yn uniongyrchol, sef cynnal dinasyddiaeth a chymdeithas sifil a hybu addysg a dysgu.

2.4.7. Yn ein dadansoddiad, ystyriwyd y dull diwygiedig a'r opsiynau amgen o ran yr hyn sy'n sbarduno gwerth cyhoeddus - ansawdd, cyrhaeddiad, effaith a gwerth am arian. Yn ein dadansoddiad, gwelwyd bod darparu un o gynhyrchion syndiceiddio safonol y BBC yn debygol o gael effaith drwy sicrhau bod cynnwys gwasanaeth cyhoeddus yn cyrraedd cynulleidfaoedd a bod ansawdd yn bwrw gwreiddiau drwy warchod profiad y defnyddiwr. Nodwyd y gall fod yn anodd rhagweld y cyrhaeddiad mewn meysydd newydd a rhai sydd heb eu profi. Serch hynny, teimlem y gellir yn rhesymol ddisgwyl i bolisi sy'n anelu at wasanaethu ystod eang o blatfformau a dyfeisiau, ac sydd ar yr un pryd yn cadw rheolaeth ar agweddau allweddol o brofiad y defnyddiwr a'r amgylchedd golygyddol, gadw'r un cyrhaeddiad a sicrhau bod yr un nifer yn defnyddio cynnwys y BBC, gan hyd yn oed ymestyn hynny efallai dros amser.

2.4.8. Wrth inni asesu gwerth am arian, canolbwyntiwyd ar a oedd syndiceiddio drwy gyfrwng cynnyrch safonol yr iPlayer yn cynnig gwerth am arian. Cymharwyd costau tebygol y dull hwn o'u cymharu â chostau dulliau eraill megis

---

[19] Mae hyn i'w weld yn llawn yn adran 4.7 o adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC - Syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC http://www.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/on_demand/2011/revised/review_on_demand_syndication.pdf
[20] Yn benodol, Cymal 12 o Gytundeb y BBC

hunanadeiladu neu ddadgrynhoi. Ar hyn o bryd, cost flynyddol datblygu, cynnal a dosbarthu'r iPlayer ar bbc.co.uk a syndiceiddio cynnyrch y we yw [cuddiwyd y manylion], ac o fewn y swm hwnnw, mae cynnal a chadw a datblygu'r iPlayer yn costio £5.2 miliwn. Er ei bod yn anodd pennu'r costau'n union, awgrymwyd, yn sgil ein gwaith dadansoddi, y gallai'r polisi diwygiedig arwain at gostau sydd fymryn yn uwch o'u cymharu â'r dulliau syndiceiddio amgen drwy gael ardal â brand y BBC arni ar blatfform trydydd parti a syndiceiddio drwy hunanadeiladu, dulliau a oedd oddeutu 10-20% yn llai costus. Serch hynny, fel y gwelir yn ein hasesiad o'r gwerth cyhoeddus a'n hasesiad o'r opsiynau amgen ar gyfer syndiceiddio (gweler adran 2.4.12 isod), mae unrhyw gostau ychwanegol o'r fath yn cael eu gwrthbwyso gan y ffaith bod modd darparu gwell gwerth cyhoeddus, hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus a chyflawni'r egwyddorion wynebu'r-cyhoedd a restrwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Roeddem yn cadw mewn cof o hyd ei bod yn anodd rhagweld yr union gostau oherwydd y byddent yn dibynnu ar nifer y trefniadau unigol – rhai safonol a rhai arbennig – y byddai'r Bwrdd Gweithredol yn eu gwneud gyda thrydydd partïon. Felly, mae'n briodol bod y costau sy'n gysylltiedig â syndiceiddio'n cael eu cadw dan reolaeth gan y Bwrdd Gweithredol a'u bod yn cael eu monitro'n briodol gan yr Ymddiriedolaeth. Roedd yr asesiad hwn o'r gwerth cyhoeddus yn cyfrannu at ein casgliadau y byddai ein dull diwygiedig ar gyfer syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC yn cyfrannu'n gryf at gyflawni dibenion cyhoeddus y BBC

<u>Dadansoddi'r effaith gystadleuol a'r effaith ar y farchnad[21]</u>

2.4.9. Wrth inni asesu ein dull diwygiedig ar gyfer syndiceiddio, awgrymwyd bod y gwerth cyhoeddus ar ei uchaf – yn sgil gyflawni'r egwyddorion wynebu'r-cyhoedd – pan fyddai cynnwys ar-alw'r BBC yn cael ei ddarparu o fewn un o gynhyrchion safonol y BBC, megis yr iPlayer. Serch hynny, credem fod her ddeublyg yn ein hwynebu mewn byd anlinellol: nid yn unig y mae'n rhaid inni sicrhau bod y dibenion cyhoeddus yn cael eu cyflawni a sicrhau gwerth cyhoeddus, rhaid inni wneud hynny mewn ffordd sy'n rhoi sylw i effaith gweithgareddau'r BBC ar y farchnad ehangach.

2.4.10. Wrth inni asesu'r effaith gystadleuol a'r effaith ar y farchnad, edrychwyd ar bryderon a godwyd gan randdeiliaid, yn ogystal ag ar yr effeithiau statig a deinamig ar y farchnad. Rhan sylfaenol o'r asesiad hwn oedd ystyried sylwadau rhanddeiliaid yn eu hymatebion i'n polisi dros dro, a gyhoeddwyd ym mis Ionawr 2011. Roedd ymatebion y rhanddeiliaid yn dangos ystod o wahanol safbwyntiau ynglŷn ag effaith bosibl y polisi dros dro.

2.4.11. Ochr yn ochr â'r gwaith arall a wnaethom, arweiniodd y dadansoddiad hwn yr Ymddiriedolaeth yn rhannol i ddatblygu agwedd fwy hyblyg at syndiceiddio, a dangoswyd hyn yn ein casgliadau diwygiedig ym mis Tachwedd 2011. Credem y byddai'r rhain yn lliniaru rhai o bryderon y rhanddeiliaid. Ar sail y gwaith hwn, ymgorfforwyd nifer o elfennau penodol hefyd i liniaru pryderon ynglŷn â'r effaith ar y farchnad yn y polisi diwygiedig a gyhoeddwyd gennym ar gyfer yr ymgynghori. Er enghraifft, yn y polisi, nodwyd y byddai gofyn i'r Bwrdd

---

[21] Mae hyn i'w weld yn llawn yn adran 4.8 o adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC - Syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC
http://www.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/on_demand/2011/revised/review_on_demand_syndication.pdf

Gweithredol ryddhau digon o wybodaeth i ganiatáu i drydydd partïon gynllunio a rheoli eu mapiau datblygu.

Asesu opsiynau amgen[22]

2.4.12. Yn sgil ymatebion rhanddeiliaid i'n casgliadau dros dro ym mis Ionawr 2011, archwiliwyd yn fwy manwl yr opsiynau amgen ar gyfer syndiceiddio cynnwys teledu ffurf-hir, hyd-llawn, ar-alw. Yn ein hasesiad, ystyriwyd yr opsiynau a ganlyn:

- Syndiceiddio drwy gael ardal â brand y BBC arni ar blatfform trydydd parti. Awgrymai ein dadansoddiad na fyddai'r opsiwn hwn o reidrwydd nac yn awtomatig yn cyflawni'r prif egwyddorion, a'i fod yn annhebygol o gyflawni'r dibenion cyhoeddus i'r un graddau ag y rhagwelid y byddai dull safonol yr iPlayer yn eu cyflawni. Roeddem yn cydnabod y gallai rhai platfformau trydydd parti oresgyn yr anawsterau hyn ac y gallent ddarparu profiad gwylio o safon uchel. Serch hynny, byddai mynd ati fel hyn yn debygol o olygu costau ychwanegol yn sgil gwaith teilwra arbennig, datblygu, cynnal a chadw a monitro.
- Syndiceiddio drwy hunanadeiladu. Er y byddai hyn yn mynd dipyn o'r ffordd tuag at liniaru pryderon rhanddeiliaid ynglŷn â diffyg hyblygrwydd ymddangosiadol, roedd ein dadansoddiad yn awgrymu na fyddai mynd ati fel hyn yn debygol o gyflawni'r dibenion cyhoeddus na'r egwyddorion i'r un graddau ag y byddai'r dull safonol. Roedd hynny'n arbennig o wir am yr ansicrwydd ynglŷn â darparu technolegau cynorthwyol a rheolaeth rhieni, a'r diffyg rheolaeth olygyddol gan y BBC a fyddai'n llacio'i chysylltiad uniongyrchol â'i chynulleidfa.
- Syndiceiddio fesul ased (dadgrynhoi). Roedd ein dadansoddiad yn awgrymu, er y gallai mynd ati fel hyn, mewn theori, gynnal cyrhaeddiad cynnwys y BBC yn y tymor byr, y ganlyneb, mae'n debyg, fyddai profiad is-safonol i'r defnyddiwr a fyddai'n methu â chyflawni'r prif egwyddorion.

2.4.13. Roedd ein hasesiad yn awgrymu nad oedd yr un o'r opsiynau amgen, nac ar wahân nac o'u cyfuno[23], yn cyflawni dibenion cyhoeddus y BBC a dyletswyddau eraill yn y Siarter a'r Cytundeb, fel y'u mynegir yn y prif egwyddorion, gystal ag y byddai'r opsiwn a ffefrid, sef syndiceiddio drwy gyfrwng yr iPlayer. Roedd yr Ymddiriedolaeth yn sylweddoli ei bod yn bosibl y gellid datblygu rhai o'r opsiynau amgen mewn partneriaeth â'r BBC ac y gallent, drwy hynny, gyflawni'r prif egwyddorion, ac felly gyflawni'r dibenion cyhoeddus. Serch hynny, roedd ein hasesiad yn awgrymu, petai'r Ymddiriedolaeth yn mabwysiadu polisi syndiceiddio a oedd wedi'i seilio ar unrhyw ddull arall sy'n cyflawni'r prif egwyddorion, y byddai'r costau syndiceiddio a fyddai'n gysylltiedig â hynny'n uwch i'r BBC na chostau'r opsiwn a ffefrir, petai'r opsiwn amgen hwnnw'n cael ei roi ar waith drwyddi draw fel mater o drefn. Felly, yn ein barn ni, nid oedd yr opsiynau amgen a archwiliwyd yn cynnig gwerth am arian. Dyna pam y casglwyd na fyddai modd sicrhau cyn lleied o effeithiau niweidiol â phosibl ar y farchnad drwy fabwysiadu dull amgen, oherwydd bod perygl go iawn i hynny olygu na fyddai modd cyflawni

---

[22] Mae hyn i'w weld yn llawn yn adran 4.9 o adolygiad Ymddiriedolaeth y BBC - Syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC http://www.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/on_demand/2011/revised/review_on_demand_syndication.pdf

[23] Gan gynnwys ei gyfuno â'r opsiwn a ffefrir.

dibenion cyhoeddus a/neu ddyletswyddau eraill y BBC, megis sicrhau gwerth am arian wrth ddarparu ei Gwasanaethau Cyhoeddus.

2.4.14. Roedd yr asesiad hwn yn cyfrannu at ein polisi diwygiedig cyffredinol a'n casgliadau a gyhoeddwyd ar gyfer yr ymgynghori ym mis Tachwedd 2011.

## 2.5. Rhesymwaith y polisi diwygiedig

2.5.1. Wrth ddiwygio'r polisi dros dro, ein nod oedd cynnal a (lle'r oedd hynny'n bosibl) ymestyn gwerth cyhoeddus gan roi sylw dyledus i'r holl bryderon a godwyd gan randdeiliaid. Yn anad dim, tywyswyd ein hagwedd at syndiceiddio gan y gred ei bod gan amlaf o fudd i dalwyr ffi'r drwydded bod modd cael gafael ar gynnwys 'cyfle arall i wylio/gwrando' y BBC ar gynifer o blatfformau a dyfeisiau ag sy'n bosibl. Ein bwriad, cyn belled ag yr oedd modd, oedd darparu ar gyfer dewis blatfform neu ddyfais talwr ffi'r drwydded. Ond nid oedd yr egwyddor hon yn un absoliwt: rhaid ystyried pethau eraill hefyd, megis gwerth am arian[24] a'r effaith gystadleuol.[25]

2.5.2. Wrth lunio ein polisi diwygiedig, cawsom ein tywys gan bedwar prif nod:

- Sicrhau bod cynnyrch y BBC yn cyrraedd cynifer o bobl â phosibl a'i bod mor berthnasol â phosibl
- Sicrhau ei bod ar gael ar ystod eang o blatfformau a dyfeisiau
- Bod hyn yn cael ei wneud mewn ffordd sy'n cynnal cysylltiad uniongyrchol â chynulleidfaoedd ac yn sicrhau gwerth am arian
- Bod sylw dyledus i effaith gweithgarwch y BBC yn y maes hwn ar y farchnad ehangach

2.5.3. Roedd y dull diwygiedig yn canolbwyntio ar flaenoriaethau wynebu'r-cyhoedd er mwyn llunio'r egwyddorion y mae'r polisi'n dibynnu arnynt. Er mwyn sicrhau gwerth cyhoeddus a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus, ein barn ddiwygiedig oedd y dylai'r holl drefniadau syndiceiddio gael eu cynllunio er mwyn i dalwyr ffi'r drwydded:

a) Allu cael gafael yn rhwydd ar adeg hwylus ar holl ystod cynnwys y BBC[26]

b) Gallu dod o hyd i gynnwys y BBC yn gyflym ac yn rhwydd ar blatfformau a dyfeisiau trydydd partïon, er enghraifft, drwy gysylltu â chynnwys neu gael gafael arno drwy gyfrwng systemau llywio trydydd parti, megis EPG neu chwilio.

---

[24] Mae'r Siarter yn gosod dyletswydd ar yr Ymddiriedolaeth i 'sicrhau stiwardiaeth gadarn dros arian cyhoeddus', sy'n golygu bod y polisi hwn yn ystyried bod angen i drefniadau syndiceiddio'r BBC sicrhau gwerth am arian.

[25] Mae'r Siarter yn mynnu ei bod yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth 'roi sylw i effaith gystadleuol gweithgareddau'r BBC ar y farchnad ehangach'; ac yn unol â hynny, drwy ei Datganiad Polisi ar Effaith Gystadleuol, mae'r Ymddiriedolaeth yn 'mynnu bod y BBC, tra'i bod bob amser yn sicrhau ei bod yn cyflawni ei Dibenion Cyhoeddus ac yn ystyried ei dyletswyddau eraill yn y Siarter a'r Cytundeb, yn ymdrechu i sicrhau cyn lleied o effaith gystadleuol negyddol ar y farchnad ehangach ag sy'n bosibl. Gelwir y gofyniad hwn yn "Egwyddor Effaith Gystadleuol".

[26] Fel rhan o'i strategaeth ehangach, gall y BBC syndiceiddio cynhyrchion eraill hefyd sy'n cael eu dethol yn olygyddol gan y BBC, sy'n ategu ei chynnig ehangach ac sy'n eistedd ochr yn ochr â mynediad at ystod lawn y rhaglenni sydd ar gael ar gynnyrch safonol y BBC.

c) Profi cynnwys sydd o dan reolaeth olygyddol gan y BBC, ac sy'n caniatáu i'r BBC eu tywys at gynnwys arall na fyddent o reidrwydd yn cael eu denu ato'n naturiol ond a allai fod yn gyfrwng gwybodaeth a mwynhad iddynt

d) Gallu gweld yn rhwydd mai cynnwys y BBC ydyw a gallu gwahaniaethu rhyngddo a chynnwys o ffynonellau eraill

e) Profi cynnwys y BBC mewn mannau ac mewn cyd-destunau priodol yn unig

f) Cael profiad o safon uchel (e.e. rhwydd ei ddefnyddio, ansawdd y lluniau a'r sain)

g) Gallu cael gafael ar gynnwys yn ddi-dâl (sy'n golygu ar lefel yr haen mynediad neu'r hyn sy'n cyfateb iddi yng nghyswllt gwasanaethau tanysgrifio), a chynnwys sydd heb hysbysebion a nawdd

h) Gallu cael gafael ar nodweddion rheolaeth rhieni a hygyrchedd, megis isdeitlau a sainddisgrifio, a'r rheini sy'n gysylltiedig â'r ddewislen a'r rhyngwyneb defnyddiwr

2.5.4. Ac ystyried y gwahanol ffyrdd y bydd cynulleidfaoedd yn gwrando ar radio hyd-llawn ar-alw a chynnwys ffurf-fer ar-alw, megis yr amrywiaeth o amgylcheddau neu ddyfeisiau a ddefnyddir, cynigiwn amrywio'r egwyddorion hyn yn briodol ar gyfer y math hwn o gynnwys.

2.5.5. Casgliadau dros dro yr Ymddiriedolaeth ym mis Ionawr 2011 oedd na ddylai'r BBC ond syndiceiddio'i chynnwys ar-alw drwy dair fersiwn safonol o'r iPlayer a ddarperir dros y rhyngrwyd. Yn groes i hynny, roedd ein polisi diwygiedig yn nodi, er ein bod yn dal i feddwl mai'r ffordd orau o wasanaethu buddiannau talwyr ffi'r drwydded fyddai drwy sicrhau mynediad at ystod lawn cynnwys y BBC ar blatfformau a dyfeisiau eraill mewn yn un o 'amgylcheddau' y BBC, megis yr iPlayer, roedd yr Ymddiriedolaeth yn derbyn y gellir cyfiawnhau trefniadau arbennig sy'n gwyro oddi wrth y model hwn pan nad yw'n dechnegol ymarferol neu'n economaidd ddichonadwy mabwysiadu un o gynhyrchion safonol y BBC. Felly, roedd y polisi diwygiedig yn fwy hyblyg ei agwedd. Rhaid i'r BBC gydymffurfio â'r egwyddorion a osodwyd gan yr Ymddiriedolaeth ond nid yw'r Ymddiriedolaeth yn dweud yn benodol sut y dylid cyflawni hyn mewn unrhyw sefyllfa arbennig.

2.5.6. Ar sail y rhesymwaith hwn, mabwysiadodd yr Ymddiriedolaeth safbwynt diwygiedig gyda golwg ar syndiceiddio a chyhoeddodd gasgliadau ei bolisi diwygiedig ym mis Tachwedd 2011. Mae'r casgliadau hyn yn cynnwys polisi diwygiedig ar gyfer syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC a dogfen ddiwygiedig sy'n egluro'n llawn sut yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi cyrraedd y pwynt hwnnw. Mae'r ddwy ddogfen i'w gweld yn adran tystiolaeth ategol ein gwefan.

# 3. Gwaith pellach ers cyhoeddi ein polisi diwygiedig

## 3.1. Cyflwyniad

3.1.1. Ar ôl datblygu cynigion a chasgliadau ein polisi diwygiedig, cynhaliwyd ymgynghoriad chwe wythnos rhwng 9 Tachwedd a 21 Rhagfyr 2011. Roedd yr ymgynghori'n gyfle i randdeiliaid a thalwyr ffi'r drwydded godi unrhyw bwyntiau terfynol cyn i'r Ymddiriedolaeth benderfynu a ddylid cymeradwyo'r polisi diwygiedig.

3.1.2. Yn sgil y sylwadau a godwyd yn yr ymgynghoriad hwn, nid ydym wedi gweld bod angen cynnal dadansoddiad ychwanegol i roi ein polisi diwygiedig ar brawf. Fel y soniwyd eisoes, gwnaethpwyd llawer o waith dadansoddi ac asesu wrth lunio'r polisi i weld a oedd yn cydymffurfio â fframwaith ansawdd, cyrhaeddiad, effaith a gwerth am arian yr Ymddiriedolaeth. Cyhoeddwyd y cynigion polisi diwygiedig a'r ddogfen sydd gyda hi'n esbonio'r gwaith hwn ym mis Tachwedd 2011 ac maent i'w gweld ar ein gwefan.[27]

## 3.2. Ystyried ymatebion rhanddeiliaid

3.2.1. Cyflwynodd cyfanswm o 17 o ymatebwyr sylwadau i'r ymgynghoriad hwn. Roedd y rhain yn cynnwys unigolion a sefydliadau, ac mae'r ymatebion nad oeddent yn gyfrinachol i'w gweld ar ein gwefan. Cafwyd ymateb hefyd gan Gynghorau Cynulleidfa'r Ymddiriedolaeth. Cyrff sy'n cynghori Ymddiriedolaeth y BBC yw'r rhain ac maent yn rhoi cyngor annibynnol inni ynghylch i ba raddau y mae'r BBC yn cyflawni ei dibenion cyhoeddus.

3.2.2. Rydym wedi ystyried yr ymateb i'n hymgynghori. Yn fras, gwelsom fod cryn gefnogaeth i'r agwedd ddiwygiedig at syndiceiddio a geir yn y polisi. Yn benodol, roedd rhanddeiliaid yn teimlo'n gyffredinol mai mabwysiadu egwyddorion i'n tywys, yn hytrach na glynu wrth safonau technegol, oedd yn ffordd o fynd ati, a bod hynny'n caniatáu'r lefel briodol o hyblygrwydd yn y trefniadau syndiceiddio.

3.2.3. Isod, ymdrinnir â'r prif themâu a'r materion a godwyd gan randdeiliaid wrth ymateb i'r polisi diwygiedig a'r penderfyniad dros dro, ynghyd â'n hystyriaeth berthnasol o'r materion hyn a, lle bo hynny'n berthnasol, unrhyw resymwaith a ddilynwyd wrth ddiwygio'r polisi.

[27] http://www.bbc.co.uk/bbctrust/assets/files/pdf/our_work/on_demand/2011/revised/review_on_demand_syndication.pdf

## Agwedd ddiwygiedig at syndiceiddio

Agwedd fwy hyblyg sy'n seiliedig ar egwyddorion

Drwyddi draw, roedd cryn gefnogaeth i agwedd ddiwygiedig yr Ymddiriedolaeth at syndiceiddio, agwedd sydd ag egwyddorion wynebu'r-gynulleidfa wrth ei gwraidd. Cyfeiriodd nifer o randdeiliaid yn gadarnhaol at natur fwy hyblyg y polisi hwn o'i gymharu â'r fersiwn flaenorol.

Yn eu hymateb i'r cyflwyniad, roedd Virgin Media yn croesawu'r agwedd fwy rhyddfrydig at syndiceiddio cynnwys ar-alw a arddelwyd gan yr Ymddiriedolaeth ers iddi lunio'i chasgliadau dros dro, gan nodi bod syndiceiddio o reidrwydd yn gofyn am rywfaint o hyblygrwydd ar ran y BBC.

Roedd BT hefyd yn gyffredinol gefnogol i'r agwedd a arddelid yn y polisi, er eu bod wedi cyflwyno nifer o sylwadau y rhoddir sylw manwl iddynt isod.

Yn yr un modd, er bod Sky wedi codi nifer o sylwadau yng nghyswllt y polisi drafft, roeddent hefyd yn croesawu'r gwaith pellach yr oedd yr Ymddiriedolaeth wedi'i wneud a'r symud oddi wrth atebion technegol penodol at ateb sy'n cynnig rhagor o hyblygrwydd i Fwrdd Gweithredol y BBC.

Cafwyd ymateb i'r ymgynghoriad gan Gynghorau Cynulleidfa Ymddiriedolaeth y BBC hefyd. Yn fras, roeddent yn croesawu'r cynigion ac yn ategu'r budd gwerth cyhoeddus a'r budd i'r gynulleidfa y gall syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC ei greu. Gan adeiladu ar sail hyn, dywedodd Cyngor Cynulleidfa Cymru fod rhai grwpiau yn y gynulleidfa'n defnyddio cynnwys ar-alw'r BBC yn fwy nag eraill, pobl iau er enghraifft, ac felly ei fod yn fwy pwysig ymhlith grwpiau o'r fath.

Roedd Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon hefyd yn croesawu'r farn y dylid ffafrio iPlayer y BBC ar gyfer syndiceiddio gan fod hyn yn 'cydnabod bod y gynulleidfa'n ymwybodol iawn o frand yr iPlayer a'i fod [y Cyngor Cynulleidfa] yn credu y bydd mynd ati fel hyn yn sicrhau llai o ddryswch ac yn hybu sefydlogrwydd ac ymddiriedaeth'.

Y farn ynglŷn â chydgrynhoi a dadgrynhoi

Fel oedd yn wir wrth ymgynghori o'r blaen yn ystod yr adolygiad hwn, roedd pobl yn anghytuno ynglŷn â'r opsiwn gorau - ai syndiceiddio drwy gydgrynhoi ynteu drwy ddadgrynhoi.

Wrth ymateb, dywedodd Sky eu bod yn dal i gredu mai cynnig hybrid gan y BBC yn cynnwys deunydd wedi'i gydgrynhoi (e.e. fersiwn ar lein yr iPlayer) a chynnyrch ar-alw wedi'i ddadgrynhoi (e.e.  cynnwys ar-alw'r BBC mewn amgylcheddau ar wahân i'r iPlayer) yw'r ffordd fwyaf priodol o sicrhau'r gwerth cyhoeddus gorau i dalwyr ffi'r drwydded a gwarchod buddiannau'r BBC.

Roeddent hefyd yn dweud nad oedd dadl yr Ymddiriedolaeth yn y casgliadau diwygiedig yn mynd i'r afael yn llwyr â'r pwynt hwn oherwydd roeddent yn credu nad oedd asesiad yr Ymddiriedolaeth wrth iddi ystyried pob opsiwn fel dull a roddid ar waith fel mater o drefn yn ystyried y ffaith bod cynnyrch safonol iPlayer y BBC ar gael yn eang o dan y dewisiadau amgen hyn h.y. cymysgedd o syndiceiddio drwy gydgrynhoi a dadgrynhoi. Dywedasant hefyd mai ychydig o gyfiawnhad sydd dros y statws unigryw a roddir i iPlayer y BBC.

Fel y dywedwn yn ein casgliadau diwygiedig, gwrthodwyd dadgrynhoi gennym fel y dull a ffefrid ar gyfer syndiceiddio cynnwys y BBC oherwydd bod ein dadansoddiad yn awgrymu mai'r dull hwn sydd leiaf tebygol o allu cyflawni'r egwyddorion wynebu'r-cyhoedd. Ein cred ni yw mai'r ffordd orau o gyflawni'r egwyddorion hyn yw drwy ddull safonol, sef, drwy gyfrwng cynnyrch iPlayer y BBC. Wedi dweud hynny, rydym wedi arddel agwedd fwy hyblyg nag a wnaethom yn ein polisi blaenorol, a derbyniwn y gellir cyfiawnhau trefniadau syndiceiddio arbennig ar brydiau pan na fydd mabwysiadu un o gynhyrchion safonol y BBC yn dechnegol ymarferol neu'n economaidd ddichonadwy. Fe allai trefniadau o'r fath olygu defnyddio dull sydd wedi'i deilwra fwy, yn unol â'r hyn a argymhellir gan Sky. Serch hynny, nid ydym yn rhagweld y bydd amgylchiadau o'r fath nac yn gyffredin nac yn hawdd eu cyfiawnhau, a bydd rhaid i unrhyw drefniadau arbennig gydymffurfio o hyd ag egwyddorion ein polisi. Hynny yw, pe caniateid trefniant arbennig i blatfform trydydd parti er ei bod yn dechnegol ymarferol ac yn economaidd ddichonadwy iddo fabwysiadu'r dull syndiceiddio safonol, nid ydym yn rhagweld y byddai'r sefyllfa honno'n cydymffurfio â'r polisi newydd.

Yn groes i farn Sky, roedd BT yn meddwl bod y newid yn safbwynt yr Ymddiriedolaeth yn hynod anfoddhaol 'a hithau yn awr barod i ystyried y gallai darparwyr teledu gael gafael ar gynnwys dadgrynhoi'r BBC ... a chofio bod BT ac eraill wedi treulio cryn amser ac wedi gwario llawer yn cydymffurfio â safbwynt blaenorol yr Ymddiriedolaeth'.

Aeth BT rhagddo i ddweud hefyd 'un peth hanfodol yw, os darperir fersiwn wedi'i dadgrynhoi o'r iPlayer, ni chredwn y dylid caniatáu defnyddio brand a logo iPlayer y BBC wrth farchnata neu hyrwyddo, oherwydd fe allai hyn achosi cryn ddryswch ymhlith cwsmeriaid a cholli gwerth cyhoeddus oherwydd fe allai'r gwasanaeth a ddarperid fod yn wahanol iawn ac o bosibl yn is ei safon.

Deallwn bryderon BT yn y cyswllt hwn, er ein bod yn teimlo bod ein polisi diwygiedig, o ran ei agwedd, yn lliniaru'r pryderon hyn. Yn gyntaf, rydym yn glir mai'r dull syndiceiddio a ffefrir yw drwy gynnyrch iPlayer safonol gan mai dyma'r ffordd orau o sicrhau gwerth cyhoeddus. Yn ail, ar yr achlysuron prin pan fydd y Bwrdd Gweithredol yn gwyro oddi wrth y cynnyrch hwn ac yn gwneud trefniant arbennig, byddai'n rhaid i drefniant o'r fath gydymffurfio o hyd ag egwyddorion ein polisi sy'n mynnu bod mynediad at ystod lawn cynnwys y BBC yn gorfod digwydd o fewn rhyngwyneb defnyddiwr sydd o dan reolaeth olygyddol y BBC ac yn unol ag egwyddorion ein polisi. Felly, credwn, o dan y polisi diwygiedig, na fyddai trefniadau arbennig yn golygu dadgrynhoi cynnwys, lle, fel rheol, y byddai platfformau trydydd parti yn rhydd, nid yn unig i ddethol pa gynnwys gan y BBC y byddai'n ei defnyddio, ond hefyd i benderfynu sut orau i ddosbarthu a chyflwyno'r cynnwys hwnnw (h.y. y tu allan i reolaeth y BBC).

Gyda golwg ar ddefnyddio brand yr iPlayer at ddibenion marchnata, nodwn fod hyn yn fater i'r Bwrdd Gweithredol ac i'r canllawiau ar syndiceiddio. Disgwyliwn mai un o fanteision syndiceiddio cynnwys y BBC drwy gynnyrch safonol yr iPlayer fydd bod hyn yn ddeniadol i ddefnyddwyr a disgwyliwn i'r canllawiau syndiceiddio ymdrin â sut ac ymhle y ceir defnyddio'r brandio.

<u>Blaenoriaethu'r platfformau sy'n cyrraedd y nifer fwyaf</u>

Dywedodd Sky yn eu cyflwyniad y dylai'r Bwrdd Gweithredol flaenoriaethu dosbarthu cynnwys y BBC i'r platfformau hynny sy'n cyrraedd y nifer fwyaf. Credant, a hynny er mwyn sicrhau'r gwerth cyhoeddus gorau, y dylai'r Ymddiriedolaeth 'gyflwyno yn y Polisi Drafft fecanwaith ar gyfer blaenoriaethu trefniadau syndiceiddio ar sail cyrhaeddiad

platfform neu ddyfais'. Roeddent hefyd yn dweud mai 'cysyniad gwrthrychol o'r fath sy'n blaenoriaethu ar sail cyrhaeddiad fyddai'r ffordd orau'n amlwg o sicrhau gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded'.

Er ein bod yn cydnabod bod platfformau sydd wedi sefydlu eisoes yn cyfrannu at werth cyhoeddus, credwn ei bod yn bwysig nad yw ein polisi'n cau'r drws ar gyfle i blatfformau neu ddyfeisiau eraill gael eu traed danynt. Fel y dywedwyd eisoes, credwn ei bod er budd talwyr ffi'r drwydded eu bod yn gallu defnyddio cynnwys ar-alw'r BBC ar gynifer o blatfformau a dyfeisiau ag sy'n bosibl. Mae hyn caniatáu i dalwyr ffi'r drwydded ddefnyddio'r cynnwys hwn yn y ffordd fwyaf hwylus. Mae'n amlwg bod platfformau a thechnolegau sy'n cyrraedd nifer fwy felly mewn gwell sefyllfa i helpu i sicrhau cymaint o werth cyhoeddus ag y bo modd. Bwriad defnyddio dull syndiceiddio safonol drwy gyfrwng cynnyrch iPlayer y BBC yw galluogi ystod eang o blatfformau a dyfeisiau i fanteisio ar raddfa eang mewn ffordd syml, ac felly i gyrraedd nifer sylweddol o dalwyr ffi'r drwydded.

Mae'n briodol mai'r Bwrdd Gweithredol a ddylai benderfynu sut mae syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC ac y dylai anelu at sicrhau bod modd i fwyafrif helaeth y platfformau a'r dyfeisiau sydd ar y farchnad allu cael gafael yn uniongyrchol ar gynnyrch safonol yr iPlayer. Serch hynny, dim ond un rhan o'r ystyriaeth yw cyrhaeddiad. Rhaid i'r Bwrdd Gweithredol ystyried hefyd sut y gall unrhyw drefniadau gydymffurfio â'r egwyddorion wynebu'r-cyhoedd sydd wrth wraidd y polisi hwn.

## Cwmpas ein polisi ac eglurdeb ynglŷn â'i gynnwys

Cododd nifer o randdeiliaid gwestiynau ynglŷn â chwmpas y polisi syndiceiddio.

<u>Cwmpas eang</u>

Yn eu cyflwyniad i'r ymgynghoriad, dywedodd Cyngor Cynulleidfa Gogledd Iwerddon fod y polisi syndiceiddio, i bob golwg, wedi'i anelu at wneuthurwyr dyfeisiau a sefydliadau mawr y cyfryngau. Er eu bod yn deall bod hyn i raddau'n angenrheidiol oherwydd natur trefniadau syndiceiddio'r BBC, roeddent am 'bwysleisio'r gwerth cyhoeddus sylweddol a gaiff sefydliadau llai – sefydliadau addysgol er enghraifft, elusennau neu grwpiau cymunedol – wrth ddefnyddio cynnwys ar-alw'r BBC'.

Yn unol â hyn, roeddent yn awgrymu hefyd y gallai cwmpas y polisi syndiceiddio fod yn eglurach o lawer o ran y gweithgareddau y mae'n eu cynnwys.

Rydym yn derbyn pwynt y Cyngor Cynulleidfa, sef, ei bod yn ymddangos ar brydiau bod y polisi wedi'i anelu at gyrff mawr y cyfryngau a chwmnïau technoleg. Y rheswm am hyn yn rhannol yw mai sefydliadau o'r fath, mae'n debyg, fydd defnyddwyr y polisi hwn yn y pen draw. Serch hynny, credwn y dylai ystod eang o randdeiliaid - o gwmnïau mawr y cyfryngau drwodd i elusennau ac unigolion – allu mynd at y polisi, ei ddeall a'i roi ar waith er budd eu hamcanion hwy eu hunain os yw hynny'n berthnasol.

Er nad ydym yn credu bod angen i ddiben a swyddogaeth y polisi diwygiedig newid o gwbl er mwyn hwyluso hyn, rydym newid yr ieithwedd a'r disgrifiadau a ddefnyddiwn yma a thraw er mwyn sicrhau bod y cwmpas a'r pwrpas yn glir.

Cynnwys masnachol

Roedd BT yn croesawu'r ymrwymiad yn ein dogfen adolygu mai dim ond i gynnwys y Deyrnas Unedig y mae'r polisi'n berthnasol ac nad yw'n berthnasol i ddeunydd a ddarperir drwy weithgareddau masnachol y BBC. Byddent yn hoffi gweld hyn yn cael ei wneud yn glir yn y polisi ei hun.

At hynny, soniodd nifer fach o unigolion hefyd yn eu hymatebion na all talwyr ffi'r drwydded y tu allan i'r Deyrnas Unedig fanteisio ar y BBC. Er mwyn sicrhau eglurdeb yn y cyswllt hwn, rydym wedi'i gwneud yn glir nad oes a wnelo'r polisi ond â chynnwys gwasanaeth cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

Cynnwys llinellol

Roedd Virgin Media yn croesawu'r eglurhad nad yw'r polisi diwygiedig ond yn berthnasol i gynnwys ar-alw. Roeddent yn poeni am unrhyw bolisi syndiceiddio a 'allai fynnu bod platfformau teledu penodol megis un Virgin Media yn cludo sianelau llinellol drwy ddull darparu a orfodid gan y BBC er bod dulliau darparu mwy effeithiol eisoes ar gael'.

Cyfeiriodd BT at hyn hefyd. Roeddent hwy'n dweud bod 'y polisi'n tybio bod ffin glir rhwng rhaglennu llinellol a chynnwys ar-alw, heb sylweddoli y gall fod cynnwys sy'n gorwedd rhwng y ddau'.

Nodwn sylwadau Virgin Media a BT gan ddweud bod y polisi hwn yn canolbwyntio ar syndiceiddio cynnwys ar-alw. Er bod cynnwys byw eisoes ar gael yn helaeth i'w ddarlledu ar y pryd, pwrpas y polisi hwn yw sicrhau bod cynnwys nad yw'n cael ei ddarlledu ar y pryd (h.y. cynnyrch ar-alw) ar gael yn eang. Mae'n amlwg y gall y trefniadau ar gyfer syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC hefyd gynnwys capasiti ar gyfer gwylio llinellol ac fe all defnyddwyr presennol yr iPlayer wylio teledu byw drwy gyfrwng y cynnyrch syndiceiddio safonol. Byddem yn disgwyl i drefniadau syndiceiddio hefyd gydymffurfio â'r agwedd a'r egwyddorion sydd y polisi hwn. Felly, lle bydd y BBC yn syndiceiddio gwasanaeth cyhoeddus llinellol sianelau teledu'r Deyrnas Unedig i blatfformau trydydd parti, dylai ystod lawn y sianelau hynny gael ei darparu, yn unol â'r egwyddor graidd ar gyfer syndiceiddio cynnwys ar-alw gwasanaeth cyhoeddus y BBC. Trafodir hyn yn fwy manwl yn y canllawiau syndiceiddio. Serch hynny, credwn fod y gallu hwn yn ychwanegol at y swyddogaeth graidd a phwysleisiwn mai canolbwyntio ar gynnwys ar-alw y mae'r polisi hwn. Credwn fod y pwrpas yn glir yn y polisi ac ni theimlwn fod gofyn egluro hyn rhagor.

Pecynnau a ddetholir yn olygyddol

Holodd nifer o randdeiliaid beth a olygid wrth y troednodyn i egwyddor (a) gan ddweud, y gall y BBC, fel rhan o'i strategaeth ehangach syndiceiddio cynhyrchion eraill hefyd sy'n cael eu dethol yn olygyddol gan y BBC, sy'n ategu ei chynnig ehangach ac sy'n eistedd ochr yn ochr â mynediad at ystod lawn y rhaglenni sydd ar gael ar gynnyrch safonol yr iPlayer.

Yn eu hymateb, dywedodd Sky y dylai cynhyrchion o'r fath orfod cydymffurfio â'r fframwaith cymeradwyo presennol. Roe Roeddent yn dweud y byddai'n 'destun pryder sylweddol petai'r Ymddiriedolaeth yn caniatáu i'r BBC lansio gwasanaethau newydd heb wneud yr asesiadau priodol'.

Roedd BT hefyd yn poeni am becynnau a ddetholid yn olygyddol. Eu barn hwy oedd 'y gallai "cynhyrchion eraill a ddetholir yn olygyddol" fod wedi'u prynu gan BT hefyd ac ar

gael i'n cwsmeriaid am dâl'. Maent yn gofyn i'r Ymddiriedolaeth gadarnhau nad yw cynnwys teledu hyd-llawn yn dod o fewn pecynnau a ddetholir yn olygyddol.

Rydym yn derbyn nad yw'r troednodyn hwn yn gwbl glir ynghylch yr hyn y gallai pecynnau a ddetholid yn olygyddol ei gynnwys. Fel y dywedwyd, credwn mai'r ffordd orau o gyflawni amcanion syndiceiddio'r BBC yw drwy gynnyrch safonol – yn bennaf yr iPlayer. Serch hynny, nodwn y gall fod cynhyrchion syndiceiddio safonol gan y BBC - yn awr ac yn y dyfodol - a fydd yn sicrhau gwerth cyhoeddus drwy syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC. Fe all y rhain fod yn becynnau golygyddol mwy penodol eu ffocws sydd yn ychwanegol at ystod lawn y cynnwys a ddarperir drwy gynnig eang-ei-sylfaen cynnyrch safonol yr iPlayer. Enghraifft o hyn yw ap Newyddion y BBC.

Er mwyn bod yn fwy clir ynghylch hyn, rydym wedi diwygio'r troednodyn hwn ac wedi ychwanegu disgrifiad mwy manwl ac enghraifft o'r hyn yr ydym yn ei ragweld.

Gan ymateb i bryderon BT, nodwn y gall pecynnau o'r fath gynnwys unrhyw gynnwys ar-alw gwasanaeth cyhoeddus y BBC – teledu hyd-llawn, radio neu ffurf-fer – ond nad yw'r polisi hwn yn ymwneud â chynnwys masnachol y gallai'r BBC ei werthu'n Fyd-eang. At hynny, ni fydd y BBC yn defnyddio'r pecynnau hyn i gludo nac i hyrwyddo cynnwys darparwyr eraill.

Gan ymateb i'r pryderon a godwyd gan Sky, rydym yn cadarnhau ei bod yn rhaid i unrhyw gynhyrchion syndiceiddio gydymffurfio â'r fframwaith trwydded gwasanaeth a'u bod yn gorfod cydymffurfio â'r asesiadau rheoleiddio perthnasol fel y'u gwelir yng Nghytundeb y BBC.

Ffenestr 7 diwrnod - cyfle arall i wylio

Gofynnodd BT i'r Ymddiriedolaeth ail-gadarnhau bod terfyn 7 diwrnod ar waith ar gyfer cyfle arall i wylio cynnwys ar gynnyrch syndiceiddio'r iPlayer, yn unol â'r canllawiau blaenorol ym mis Ionawr 2011.

Er nad yw'r polisi wedi newid yn y cyswllt hwn, nodwn fod y trefniadau ar gyfer ffenestri cyfle-arall-i-wylio i'w gweld yn nhrwyddedau perthnasol y gwasanaeth ac nad oes angen eu hailadrodd yn y polisi syndiceiddio. Rhaid i'r Bwrdd Gweithredol gydymffurfio â thelerau ei drwyddedau gwasanaeth, a, phetai'n dymuno cynnig newidiadau, rhaid iddo ddilyn y gweithdrefnau rheoleiddio perthnasol.

Rhesymwaith dros yr egwyddorion sy'n berthnasol i wahanol fathau o gynnwys

Cyflwynodd Cynghorau Cynulleidfa Gogledd Iwerddon a Lloegr sylwadau ynglŷn â pham nad yw egwyddorion penodol yn berthnasol i gynnwys radio neu gynnwys ffurf-fer. Er eu bod yn teimlo'n gyffredinol bod yr egwyddorion yn briodol ar gyfer y math penodol hwnnw o gynnwys, roeddent yn gallu dyfynnu enghreifftiau lle y gellid eu hesbonio'n eglurach, lle'r oedd gorgyffwrdd rhwng cynnwys, neu lle y gallai egwyddorion a eithriwyd fod yn berthnasol. Er enghraifft, mae Cyngor Cynulleidfa Lloegr yn awgrymu y dylai'r polisi diwygiedig ddiffinio'r hyn a olygir wrth 'fannau a chyd-destunau priodol' yn egwyddor (e). Ac ystyried natur ac ystod gyfnewidiol amgylcheddau technolegol lle bydd cynnwys ar-alw'r BBC yn cael ei syndiceiddio, ein barn ni yw ei bod yn ddigonol i'r polisi godio'r egwyddor hon ar lefel uchel. Rydym yn disgwyl y bydd y canllawiau syndiceiddio'n ymhelaethu rhagor ar y maes hwn.

Yn fwy cyffredinol, bwriedir i ystod lawn yr egwyddorion wynebu'r-cyhoedd sydd wrth wraidd y polisi diwygiedig hwn sicrhau gwerth cyhoeddus a hyrwyddo'r dibenion

cyhoeddus. Serch hynny, mae ein polisi diwygiedig yn cydnabod bod rhai o'r egwyddorion yn llai perthnasol i rai mathau penodol o gynnwys. Er enghraifft, mae'r Ymddiriedolaeth yn rhoi rhagor o bwyslais ar hyblygrwydd o ran cynnwys radio oherwydd rhaid i gynnwys o'r fath fod yn hygyrch ar ystod eang o ddyfeisiau cludadwy megis chwaraewyr MP3. Dyna pam nad ydym yn meddwl ei bod er budd gorau cynulleidfaoedd inni fynnu bod ystod lawn y cynnwys ar gael fel yr ydym ei fynnu yng nghyswllt teledu. Rydym wedi diwygio'r polisi newydd ychydig er mwyn esbonio'r amrywiadau hyn a'r rhesymwaith yn fwy clir.

Rydym hefyd wedi ailstrwythuro'r polisi diwygiedig ychydig er mwyn i'r prif egwyddorion i gyd gael eu rhestru gyntaf - ni waeth at ba fath o gynnwys y cyfeirir. Yna, mae'r polisi'n egluro'r agwedd at syndiceiddio cyn amrywio'r prif egwyddorion yn briodol yn ôl y math o gynnwys sy'n cael ei syndiceiddio.

## Canllawiau syndiceiddio

Pwyslais ar bwysigrwydd y canllawiau

Roedd pob rhanddeiliad yn y diwydiant yn pwysleisio pwysigrwydd canllawiau syndiceiddio'r Bwrdd Gweithredol, sef y ddogfen weithredol a fydd yn gefn i'r polisi newydd. Serch hynny, roeddent yn anghytuno ynglŷn â sut orau i gymeradwyo'r canllawiau hyn a'u rhoi ar waith.

Nododd Virgin Media mai'r canllawiau syndiceiddio fydd 'gwir brawf yr hyn y mae polisi'r Ymddiriedolaeth yn ei olygu'n ymarferol'. Yn eu hymateb, maent yn rhestru nifer o argymhellion penodol ar gyfer y canllawiau. Rydym wedi trosglwyddo'r rhain i'r Bwrdd Gweithredol wrth iddo baratoi'r canllawiau.

Dywed Sky ei bod 'yn hanfodol ymgynghori â rhanddeiliaid ynglŷn â'r canllawiau hyn cyn eu rhoi ar waith'. Nid ydynt yn credu bod cyfarwyddiadau'r Ymddiriedolaeth i'r Bwrdd Gweithredol – sef ymgysylltu â rhanddeiliaid ac ystyried eu barn – wrth iddo lunio'r canllawiau yn ddigonol.

Er y bydd y canllawiau syndiceiddio'n cynnwys llawer iawn o fanylion gweithredol, sy'n bwysig i'n partneriaid syndiceiddio, y polisi ei hun yw'r ddogfen dywys y mae'n rhaid i'r canllawiau gydymffurfio â hi. Mae'r polisi'n disgrifio egwyddorion craidd y berthynas rhwng y BBC a'i phartneriaid syndiceiddio. Dogfen a fydd yn gefn i'r polisi fydd y canllawiau. Rydym yn fodlon inni ymgynghori'n ddigonol er mwyn datblygu'r polisi hwn, a disgwyliwn i'r canllawiau a gyflwynir i'r Ymddiriedolaeth er mwyn iddi eu cymeradwyo ystyried sut mae'r polisi a roddir ar waith yn effeithio ar randdeiliaid.

Credwn fod pryder Sky ynglŷn â diffyg ymgynghori'n cael ei liniaru yn sgil y ffaith y bydd y Bwrdd Gweithredol, wrth iddo lunio'r canllawiau, yn dangos ei fod wedi ystyried barn rhanddeiliaid a godwyd yn ystod yr adolygiad. Wrth ymateb i'r ymgynghoriad, galwodd BT am y cyfle i gael trafodaethau ynglŷn â'r canllawiau gyda'r Bwrdd Gweithredol. Pan ddaw'r adeg i'r Ymddiriedolaeth gymeradwyo'r canllawiau, rydym yn disgwyl i'r canllawiau ddangos dealltwriaeth ymarferol o'r pryderon a godwyd gan randdeiliaid yn ystod yr adolygiad. Ar ôl eu cyhoeddi, byddwn yn disgwyl i'r Bwrdd Gweithredol hefyd barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol wrth i dechnoleg ddatblygu ac wrth i'r cynhyrchion syndiceiddio ddal i gael eu mireinio a'u datblygu, er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n dal yn addas at y diben.

Bydd y Bwrdd Gweithredol yn cyflwyno'r canllawiau syndiceiddio i'r Ymddiriedolaeth er mwyn iddi eu cymeradwyo maes o law. Felly, bydd yr Ymddiriedolaeth yn gallu sicrhau eu bod yn gydwedd ac yn gyson â'r polisi syndiceiddio yr ymgynghorwyd yn eang yn ei gylch.

## Systemau etifeddol

Darparu ar gyfer technoleg etifeddol

Cododd nifer o randdeiliaid fater y ddarpariaeth ar gyfer technoleg etifeddol o ran trefniadau syndiceiddio.

Cyfeiriodd BT at bwysigrwydd sicrhau darpariaeth barhaus ar gyfer y cynhyrchion syndiceiddio safonol gan fod blychau pen-set BT Vision, fel sy'n wir am setiau teledu sydd wedi'u galluogi i gysylltu â'r rhyngrwyd, wedi'u bwriadu i'w defnyddio am nifer o flynyddoedd. Roeddent yn croesawu'r ffaith bod yr Ymddiriedolaeth yn cydnabod pwysigrwydd parhau i ddarparu gwasanaethau ar gyfer defnyddwyr.

Trafododd Virgin Media hefyd y ddarpariaeth ar gyfer technoleg etifeddol yn eu hymateb hwythau i'r ymgynghoriad ac roeddent yn meddwl nad oedd y polisi newydd yn effeithio ar y trefniadau presennol ar gyfer y dechnoleg honno ac y dylent barhau er mwyn gallu dal i ddarparu cymorth ar gyfer yr iPlayer.

Ni chredwn mai lle'r Ymddiriedolaeth yw pennu atebion penodol yng nghyswllt darparu ar gyfer technoleg etifeddol. Ac ystyried bod amgylchedd technoleg a'r cyfryngau'n symud yn gyflym, mae'n bwysig i'r Bwrdd Gweithredol allu datblygu ei gynhyrchion syndiceiddio i sicrhau eu bod yn cael eu diweddaru a'u bod yn berthnasol i dalwyr ffi'r drwydded. Wrth iddo wneud hynny, dylai'r Bwrdd Gweithredol gadw mewn cof hefyd anghenion y defnyddwyr hynny sy'n defnyddio platfformau presennol cynnwys syndiceiddio ar-alw'r BBC. Fel y dywedir yn ein polisi diwygiedig, dylai'r Bwrdd Gweithredol gytuno ar drefniadau pontio â'i bartneriaid syndiceiddio, eu cyfleu'n glir a'u rheoli'n effeithiol.

Manylebau'r datblygiadau technegol

Yn ogystal â rhoi cymorth i systemau sy'n heneiddio, roedd BT hefyd yn cydnabod bod angen rhoi fersiynau newydd o'r iPlayer ar waith wrth i dechnoleg ddatblygu. Roeddent yn pwysleisio pa mor bwysig oedd sicrhau bod y Bwrdd Gweithredol yn 'rhoi rhybudd teg o newidiadau o flaen llaw' er mwyn galluogi BT i 'ddeall o flaen llaw fanylion cydnawsedd fersiynau iPlayer newydd o'u cymharu â'r safonau y cytunwyd arnynt'.

Rydym yn sicr ei bod yn bwysig i'r Bwrdd Gweithredol roi gwybodaeth glir a honno'n wybodaeth o safon er mwyn i drydydd partïon allu cynllunio a rheoli eu mapiau datblygu. Dylai'r wybodaeth hon gynnwys, ond nid hynny'n unig, set o feini prawf gwrthrychol a ddefnyddir i ddiffinio cynhyrchion safonol, mapiau datblygu, a chymorth technegol (o ran ehangder a hyd) ar gyfer fersiynau safonol. Rydym wedi cyfarwyddo'r Bwrdd Gweithredol i roi sylw i hyn yn y canllawiau syndiceiddio.

## Profiad y defnyddiwr

Hygyrchedd

Ymatebodd yr RNIB, Action on Hearing Loss a Sense i'r ymgynghori. Roeddent yn croesawu ymrwymiad y polisi i nodweddion hygyrchedd megis isdeitlo a sainddisgrifio. Maent yn credu y gall y pwyslais ar syndiceiddio un o gynhyrchion safonol yr iPlayer sy'n cynnwys y nodweddion hyn, sef yr hyn y mae'r polisi diwygiedig yn ei gadarnhau, gael effaith gadarnhaol sylweddol ar fywydau'r bobl y maent yn eu cynrychioli.

Roedd yr RNIB ac Action on Hearing Loss hefyd yn tynnu sylw at y polisi diwygiedig sy'n dweud na ddylai gwyro oddi wrth y dull safonol fod yn beth cyffredin nac ychwaith yn hawdd ei gyfiawnhau.

Cyfeiriodd Sense at y ffaith nad oedd cynnwys ffurf-fer wedi'i glymu gan yr egwyddorion ynglŷn â nodweddion hygyrchedd, ond roeddent yn gobeithio y byddai unrhyw gynnwys ffurf-fer a fyddai o fudd i ddefnyddwyr gwasanaethau hygyrch ar gael yn hwylus yn unol ag ysbryd y polisi.

A chofio rôl Ymddiriedolaeth y BBC i gynrychioli buddiannau pawb sy'n talu ffi'r drwydded, rydym yn cytuno â'r uchelgais hwn. Serch hynny, sylweddolwn, oherwydd natur cynnwys ffurf-fer, nad yw bob tro'n bosibl nac yn ymarferol cynnwys isdeitlau a sainddisgrifio. Dyna pam yr ydym wedi mabwysiadu dull mwy hyblyg o ran cynnwys ffurf-fer – dull lle nad oes gofyn o reidrwydd i bobl lynu wrth yr egwyddor hon.

Rheolaeth rhieni

O ran rheolaeth rieni, cyfeiriodd BT at y ffaith bod y polisi'n cydnabod 'pwysigrwydd darparu dulliau i rieni reoli cynnwys ond nid y posibilrwydd o integreiddio trefniadau rheolaeth rhieni y BBC â threfniadau ehangach platfform y gwasanaeth'. Maent yn credu y dylai'r polisi annog integreiddio'r trefniadau rheolaeth rhieni â threfniadau'r platfform ei hun er mwyn sicrhau bod dull cyson ar gael i rieni gadw rheolaeth.

Gallwn weld manteision cynnig ateb integredig o'r fath ar gyfer rheolaeth rieni a byddem yn annog y Bwrdd Gweithredol i ystyried sut y gellir datblygu hyn. Serch hynny, ac ystyried yr heriau technolegol y mae hyn yn eu gosod, nid yw'n amod y byddem yn ei ychwanegu nac at gynnyrch safonol yr iPlayer nac at unrhyw drefniadau arbennig a wneir gan y Bwrdd Gweithredol.

Rhyngwyneb defnyddwyr

Yn eu hymateb, dywedodd BT, er eu bod yn deall bod angen i'r BBC sicrhau bod ei chynnwys syndiceiddio'n gyson o ran arddull, golwg a theimlad, y byddent yn hoffi cael rhywfaint o hyblygrwydd i addasu rhai nodweddion ar y rhyngwyneb defnyddwyr, 'er enghraifft, swyddogaeth botymau rheoli penodol neu sut mae botymau tric yn gweithio'.

Mater i ganllawiau syndiceiddio'r Bwrdd Gweithredol yw arddull, golwg a theimlad cynnyrch syndiceiddio'r BBC, ac yn benodol, mater i'r adrannau hynny yn y canllawiau sy'n ymwneud â brandio. Fel y dywedwn yn y polisi diwygiedig, ac mewn adroddiadau blaenorol, credwn fod gwerth sylweddol i'w gael yn sgil syndiceiddio cynnwys drwy iPlayer y BBC. Wrth ddilyn y dull hwn, ymrwymir i arddull, golwg a theimlad ac ni fyddem yn argymell gwyro oddi wrth hyn fel arfer safonol.

<u>Hysbysebu a nawdd</u>

Yn eu hymateb, roedd BT yn cytuno â gofyniad yr Ymddiriedolaeth yn y polisi ar i'r iPlayer fod ar gael am ddim ar lefel mynediad i'r sawl sy'n darparu teledu am dâl, gan ddweud y byddent yn 'cadw profiad yr iPlayer yn rhydd rhag hysbysebu a nawdd.' Serch hynny, roeddent yn dweud, ar lefel platfform, y gallent ddenu hysbysebion a nawdd ac nad ydynt yn credu bod gwrthdaro rhwng gweithgarwch ar lefel platfform a gwarchod yr iPlayer ar lefel mynediad. Maent yn awgrymu y gallai'r Ymddiriedolaeth fod yn dymuno cydnabod hyn yn y cynigion terfynol.

Rydym yn derbyn bod platfformau masnachol sy'n syndiceiddio'r iPlayer yn debygol o ddangos rhyw fath o sylw i nawdd neu hysbysebu. Serch hynny, mae'n bwysig iawn bod y profiad a gaiff defnyddwyr o gynnyrch syndiceiddio'r iPlayer yn rhydd rhag unrhyw fath o nawdd neu hysbysebu ac mae ein polisi wedi'i gynllunio er mwyn gwarchod rhag hyn.

Bydd manylion gweithredol ynglŷn â sut y gwarchodir cynnwys syndiceiddio'r BBC rhag hysbysebu a nawdd yn cael eu trafod yn y canllawiau syndiceiddio.

## Trefniadau gyda phartneriaid syndiceiddio

<u>Metadata a data ynglŷn â sut y defnyddir y gwasanaeth gan y gynulleidfa</u>

Roedd y rhanddeiliaid yn croesawu'r eglurhad bod y polisi syndiceiddio diwygiedig yn cynnwys darparu metadata. Mae metadata o'r fath yn hwyluso trefniadau i helpu pobl i ddod o hyd i gynnwys ar-alw'r BBC ac, felly, bydd yn cryfhau'r gwerth cyhoeddus.

Roedd Virgin Media yn croesawu'r 'eglurhad bod darparu metadata a threfniadau dolennu wedi'u cynnwys yn yr un polisi ac y bydd y canllawiau'n rhoi sylw i hyn' gan nodi y dylai'r canllawiau syndiceiddio ymdrin yn benodol â metadata a threfniadau dolennu tryloyw.

Roedd BT hefyd yn croesawu'r ffaith bod yr adolygiad a oedd yn rhan o'r polisi diwygiedig yn cydnabod y gall yr iPlayer ymddangos mewn argymhellion sy'n seiliedig ar y metadata hyn. Serch hynny, aeth eu hymateb gam arall a dweud bod 'BT yn awyddus i sicrhau ei fod yn gallu bwydo gwybodaeth gwylio'r iPlayer i'w argymhellion ei hun'. At hynny, maent yn dweud bod 'BT yn barod i ddarparu gwybodaeth gyffredinol am batrymau defnyddio i'r BBC ond y byddent yn disgwyl cael gwybodaeth debyg yn gyfnewid am hynny'.

Nodwn fod gwahaniaeth sylweddol rhwng metadata, sy'n berthnasol i wybodaeth am raglennu (enw, genre, cast ac ati) a data am y ffordd y bydd cynulleidfa'n defnyddio gwasanaeth, sy'n ymwneud â pha gynnwys y bydd defnyddwyr unigol yn ei wylio/yn gwrando arno. Credwn fod modd defnyddio'r naill fath o ddata a'r llall i ddarparu argymhellion ar gyfer defnyddwyr a fydd yn help iddynt ddod o hyd i gynnwys ac yn gwella'u profiad Dyma'r hyn a fwriedir yn adran berthnasol y polisi. Yn y cyswllt hwn, mater i'r canllawiau syndiceiddio fydd penderfynu i ba raddau y bydd y BBC yn darparu data ynglŷn â sut mae'r gynulleidfa'n defnyddio'r gwasanaeth.

Serch hynny, rydym yn poeni y byddai darparu data am sut mae'r gynulleidfa'n defnyddio'r gwasanaeth i bartneriaid syndiceiddio masnachol yn eu galluogi i ddefnyddio'r data hyn ar gyfer hysbysebu a marchnata. Gan fod modd darparu data gronynnol iawn ynglŷn â sut mae unigolion yn defnyddio'r gwasanaeth, fe allai hyn o fod o werth mawr i blatfformau masnachol.

Nid ydym wedi newid y polisi diwygiedig i atal neb rhag defnyddio data am y gynulleidfa at ddibenion masnachol gan fod hyn yn rhan o ddadl ehangach na syndiceiddio. Serch hynny, rydym wedi dweud y dylai'r Bwrdd Gweithredol ei gwneud hi'n glir yn ei ganllawiau pa ddata ynglŷn â sut mae'r gynulleidfa'n defnyddio'r gwasanaeth y gall partneriaid ddisgwyl eu cael a sut y cânt eu defnyddio.

<u>Cymorth gyda'r Gwasanaeth</u>

Dywedodd BT 'nad yw'r polisi'n rhoi sylw i'r ffaith bod angen sicrhau bod y gwasanaeth ar gael ar ryw lefel benodol, na bod angen darparu mecanwaith gweithredol i gynorthwyo gydag unrhyw broblemau a all godi o ran bod y gwasanaeth ar gael, neu o ran y ffordd mae'n gweithredu'n neu'n perfformio'.

Mae'n rhesymol y byddai BT yn disgwyl i'r BBC ddarparu rhywfaint o gymorth i'r gwasanaeth yng nghyswllt syndiceiddio. Teimlwn y bydd hyrwyddo cynnyrch safonol yr iPlayer, sef y ffordd orau o syndiceiddio cynnwys y BBC, yn galluogi Bwrdd Gweithredol y BBC i ddarparu lefel dda o gymorth i'r gwasanaeth. Serch hynny, nid lle'r polisi yw pennu pa fath o gymorth fydd hyn, a disgwyliwn i'r Bwrdd Gweithredol ymdrin â hyn yn ei ganllawiau.

<u>Cyflwyno adroddiadau i'r Ymddiriedolaeth ynglŷn â'r trefniadau syndiceiddio</u>

Roedd Sky yn croesawu 'ymrwymiad yr Ymddiriedolaeth i dryloywder yn y polisi drafft' ond dywedodd 'y dylai'r Ymddiriedolaeth ystyried ymestyn y tryloywder hwnnw y tu hwnt i ofynion technegol a fyddai'n cynnwys adolygiadau rheolaidd o sut mae'r Bwrdd Gweithredol yn cydymffurfio â'r polisi a'r canllawiau syndiceiddio'. Maent yn credu y byddai hyn yn gymorth i'r Ymddiriedolaeth orfodi'r polisi'n effeithiol ac yn rhoi mwy o sicrwydd i randdeiliaid.

Fel y nodwyd yn y polisi diwygiedig, rydym yn disgwyl i'r Bwrdd Gweithredol gynnig diweddariad bob chwe mis ar bob trefniant syndiceiddio a ystyriwyd yn y cyfnod hwnnw, gan gynnwys ar ba sail y gwnaethpwyd unrhyw drefniadau arbennig. Mae hon yn ffordd bwysig i'r Ymddiriedolaeth fonitro cydymffurfio â'r polisi. Serch hynny, nid ydym yn cytuno y dylid cyhoeddi'r diweddariadau hyn, yn enwedig gan eu bod yn debygol o gynnwys gwybodaeth fasnachol sensitif. Credwn y gallai hyn greu gweithdrefnau gorfiwrocrataidd – sy'n rhywbeth yr ydym yn awyddus iawn i'w osgoi.

Cododd BT fater tebyg yn eu hymateb hwythau, gan ddweud, os bydd y BBC yn gwneud trefniadau arbennig 'y dylai'r manylion fod ar gael i ddarparwyr eraill er mwyn iddynt allu asesu a fyddai'r trefniadau hyn hefyd yn fwy addas na defnyddio'r iPlayer'.

Rydym wedi ystyried yr awgrym hwn ac yn teimlo y byddai'n tanseilio deinameg sylfaenol y polisi pe cyhoeddid telerau'r trefniadau arbennig gyda golwg ar eu darparu ar gyfer darparwyr eraill. Mae ein polisi yn pwysleisio pwysigrwydd a gwerth syndiceiddio cynnwys y BBC drwy gyfrwng cynnyrch safonol megis yr iPlayer. Rydym yn derbyn y gall amgylchiadau arbennig godi o bryd i'w gilydd sy'n golygu gwyro oddi wrth yr ymagwedd hon, oherwydd ymarferoldeb technegol neu economaidd, ond nid ydym yn rhagweld y bydd hyn yn digwydd yn gyffredin nac ychwaith yn hawdd ei gyfiawnhau. Nid ydym yn cytuno â'r cais am gyhoeddi manylion y trefniadau arbennig. Mae'n bosibl y bydd modd cyfiawnhau trefniadau arbennig ar brydiau mewn achosion penodol, dan amgylchiadau lle nad yw'n dechnegol ymarferol nac yn economaidd ddichonadwy ddefnyddio'r iPlayer safonol. Bwriad y polisi yw peidio â gadael i bartneriaid syndiceiddio ddewis cael trefniant arbennig pan nad yw'r amgylchiadau'n cyfiawnhau trefniant arbennig o'r fath.

## Darparu'r cynnwys

Profiad gwylio o safon uchel

Yn eu hymateb i'r ymgynghori, cododd BT nifer o bwyntiau ynglŷn â darparu cynnwys ar draws y rhwydwaith Maent yn credu ei bod yn iawn bod y polisi'n cydnabod ac yn gwarchod pwysigrwydd profiad o safon i'r defnyddwyr, ond byddai'n awyddus i weld y polisi'n diffinio ystyr hyn.

Wrth lunio ein polisi diwygiedig, rydym wedi dewis peidio â diffinio profiad gwylio o safon uchel. Y prif reswm dros hyn yw mai term cymharol yw hwn ac y bydd yn newid wrth i dechnoleg, megis cyflymder band eang, ddatblygu. Bwriadwn i'n polisi allu gwrthsefyll newidiadau yn y dyfodol, ac felly, rydym yn nodi mai gwaith y Bwrdd Gweithredol yw sicrhau bod profiad y defnyddiwr yn brofiad o safon yn y trefniant unigol a wnaiff. Rydym yn cynnig rhywfaint o ganllawiau ynglŷn â'r hyn a allai ddiffinio profiad o safon uchel (e.e. rhwyddineb defnydd, ansawdd y lluniau a'r sain), ond ni fyddwn yn ceisio diffinio hyn yn fanylach.

Costau darparu'r cynnwys

Yn eu hymateb, soniodd BT am gostau dosbarthu cynnwys y BBC ei hun, gan nodi eu bod wedi'u cuddio i raddau helaeth. Eu sylw oedd bod 'hyn yn awgrymu bod hyn yn fater o bwys i'r BBC'. Sylwodd Virgin Media hefyd fod yr union ffigurau wedi'u cuddio, gan dynnu sylw at gasgliadau'r Ymddiriedolaeth y gallai atebion amgen i'r dull diwygiedig arwain at gostau is i'r BBC.

Wrth baratoi casgliadau ein polisi diwygiedig, dadansoddodd yr Ymddiriedolaeth werth am arian y dull syndiceiddio diwygiedig Roedd hyn yn cynnwys manylion y costau presennol a'r costau tebygol yn y dyfodol, gan gynnwys y rheini sy'n ymwneud â dosbarthu. Cymharwyd y rhain â chostau opsiynau amgen. Er inni weld y gallai opsiynau amgen fod fymryn yn rhatach (oddeutu 10-20% yn rhatach) na'r dull yr oeddem yn ei ffafrio, nid oeddent yn cyflawni'r egwyddorion wynebu'r-cyhoedd a bennwyd yn y polisi diwygiedig.

Cuddiwyd cyfran fawr o ffigurau'r costau hyn yng nghasgliadau ein polisi diwygiedig oherwydd byddai manylion y costau hyn yn datgelu faint yn union y mae'n rhaid i'r BBC ei dalu am elfennau penodol y dosbarthu. Credem y byddai hyn yn golygu bod y BBC o dan anfantais wrth negodi'n fasnachol yn y dyfodol. At hynny, er nad yw ein dadansoddiad wedi ystyried yn benodol y costau y bydd darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd yn eu hwynebu, fel y nododd BT, byddem yn annog y Bwrdd Gweithredol i drafod â darparwyr gwasanaethau rhyngrwyd er mwyn ystyried y ffyrdd gorau o ddarparu cynnwys.

Rhwydweithiau darparu cynnwys

At hynny, dywedodd BT nad yw safbwynt yr Ymddiriedolaeth wrth iddi gyfiawnhau darparu cynnwys drwy ddulliau safonol ar sail band eang mwy cyflym ac ati 'yn rhoi sylw i gyflymder twf defnyddio fideo a'r buddsoddi yn y rhwydwaith y bydd ei angen'. Er mwyn sicrhau bod y profiad yn parhau'n brofiad o safon uchel, dadleua BT y dylent allu defnyddio'u rhwydweithiau darparu cynnwys sicr eu hunain (CDNs).

Derbyniwn na fydd y datblygiadau technolegol, megis band eang mwy cyflym, y mae ei hangen i ddarparu amgylchedd lle bydd gwasanaethau ar-alw'n fwyfwy amlwg, i gyd yn

digwydd ar yr un cyflymder. Er ein bod yn dal i gredu na fydd darparu dros y top o reidrwydd yn arwain at gynnig is ei safon na dulliau darparu eraill, sylweddolwn y gall fod rhywfaint o botensial ar gyfer sicrhau darpariaeth ddibynadwy drwy ddulliau eraill. Dyma pam nad yw'r agwedd ddiwygiedig felly'n argymell un dull unigol ar gyfer darparu cynnwys, ond ein bod yn mynnu bod pob trefniant syndiceiddio'n cydymffurfio â'r egwyddorion a'r gofynion sydd yn y polisi arfaethedig a'i fod yn unol â'i delerau. Disgwyliwn hefyd i'r rhan fwyaf o'r trefniadau fod ar ffurf cynnyrch safonol y BBC, ac iddynt gael eu darparu dros y rhyngrwyd.

Nodwn fod defnyddio CDNs a'r gwahaniaeth rhwng darparu dros y top (fel yr argymhellir yn ein polisi diwygiedig) a darpariaeth sicr (drwy rwydweithiau'r platfformau eu hunain) yn fater ehangach nag yr ymdrinnir ag ef yn y polisi syndiceiddio ar-alw. Trafodaeth ynglŷn â niwtraliaeth net sydd wrth wraidd y ddadl hon ac mae Ofcom yn rhoi sylw i hyn ar hyn o bryd. Cred y BBC y dylai'r rhyngrwyd ddal i fod yn rhwydwaith agored a niwtral ac y dylai fod egwyddorion clir na fydd Darparwyr Gwasanaethau Rhyngrwyd yn atal cynnwys cyfreithlon nac yn blaenoriaethu'n annheg wahanol fathau o gynnwys am eu rhesymau masnachol hwy eu hunain.[28]

## 3.3. Y rhesymwaith terfynol

3.3.1. Fel y crybwyllir uchod, rydym wedi ystyried y pwyntiau a godwyd yn ymateb y rhanddeiliaid i'r ymgynghori ar y cynigion polisi diwygiedig ac wedi rhoi sylw iddynt. Rydym hefyd wedi ystyried yr ymatebion hyn gan randdeiliaid yng nghyswllt dadansoddiadau blaenorol o werth cyhoeddus, yr effaith gystadleuol a'r effaith ar y farchnad ac wedi asesu opsiynau amgen.[29] Mae'r broses hon wedi arwain at ambell fân newid o ran cwmpas ac eglurder mewn ambell faes o'r polisi, ond nid yw wedi golygu bod yr Ymddiriedolaeth wedi newid ei barn o ran ei hagwedd ddiwygiedig at syndiceiddio mewn unrhyw ffordd sylweddol.

3.3.2. Ar sail y gwaith hwn, isod, ceir rhesymwaith terfynol yr Ymddiriedolaeth ar gyfer ei pholisi newydd ar syndiceiddio cynnwys ar-alw:

<u>Cwmpas ac eglurder</u>

3.3.3. Wrth ystyried ymatebion rhanddeiliaid, mae'r Ymddiriedolaeth wedi gwneud mân newidiadau i'r polisi diwygiedig o ran ei gwmpas a'i eglurder. Yn y maes hwn, rydym wedi ceisio sicrhau bod telerau'r polisi a'r ymagwedd mor glir ag y bo modd, drwy ychwanegu mwy o ddisgrifiadau, enghreifftiau a rhesymwaith at y polisi lle bo hynny'n briodol.

3.3.4. Rydym hefyd wedi addasu'r strwythur fymryn fel bod yr egwyddorion wynebu'r-gynulleidfa'n cael eu rhestru gyntaf – ni waeth pa fath o gynnwys a drafodir. Yna, mae'r polisi'n egluro'r agwedd at syndiceiddio cyn amrywio'r prif egwyddorion yn briodol yn ôl y math o gynnwys sy'n cael ei syndiceiddio.

3.3.5. Credwn fod y newidiadau hyn yn ei gwneud hi'n glir sut y bwriedir i'r polisi weithio yng nghyswllt gwahanol fathau o gynnwys. Serch hynny, nid yw'r rhain

[28] I gael gwybod rhagor am hyn, gweler yr erthygl hon - The importance of the open internet: BBC Trust Vice Chairman on net neutrality - http://www.bbc.co.uk/bbctrust/news/comment/open_internet.shtml

[29] Sonnir am hyn yn adran 2.4 y ddogfen hon ac yn llawn yn ein casgliadau dros dro ym mis Tachwedd 2011

yn golygu newid amlwg o'r polisi diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011.

Gwerth cyhoeddus

3.3.6. Wrth styried ymatebion rhanddeiliaid, nid ydym wedi newid ein barn ynglŷn â'n hasesiad o werth cyhoeddus y polisi a'i agwedd ddiwygiedig, fel y'u nodir yng nghasgliadau'r polisi diwygiedig.

3.3.7. Wrth asesu gwerth cyhoeddus yn y casgliadau dros dro, casglwyd mai un o gynhyrchion safonol yr iPlayer oedd fwyaf tebygol o gyflawni egwyddorion wynebu'r cyhoedd ein polisi a gwireddu dibenion cyhoeddus y BBC o'i gymharu â'r opsiynau amgen. Dyma farn yr Ymddiriedolaeth o hyd. Bydd y polisi diwygiedig yn cael effaith drwy sicrhau bod talwyr ffi'r drwydded yn gallu cael gafael ar gynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar-alw mewn ffordd sy'n hwylus iddynt hwy. Drwy arddel agwedd safonol at syndiceiddio drwy gyfrwng cynnyrch presennol yr iPlayer bydd hynny hefyd yn golygu bod y BBC yn gallu cadw mwy o reolaeth olygyddol a darparu rhyngwyneb defnyddwyr a nodweddion hygyrchedd mwy cyson, nag a allai drwy ddilyn opsiynau amgen.

3.3.8. O ran gwerth am arian, aseswyd opsiynau amgen syndiceiddio drwy gyfrwng ardal â brand y BBC arni ar blatfform trydydd parti a syndiceiddio drwy gyfrwng hunanadeiladu. Er bod y dewisiadau amgen fymryn yn rhatach (oddeutu 10-20%) na'r dull a ffefrid gennym, nid oeddem yn meddwl bod yr un ohonynt, o'u mabwysiadu'n sail ar gyfer ein polisi, yn debygol o gyflawni'r egwyddorion wynebu'r-cyhoedd a bennwyd yn ein polisi diwygiedig. Gallai dewisiadau amgen o'r fath beryglu gallu'r BBC i gynnig ystod lawn o gynnwys ar-alw, i gadw rheolaeth olygyddol, i dywys talwyr ffi'r drwydded at fathau eraill o gynnwys ac i ddarparu profiad cyson a lefel gyson o nodweddion at gyfer defnyddwyr.

3.3.9. Rydym yn cydnabod bod senarios amgen a fyddai'n golygu defnyddio amrywiadau sydd wedi'u teilwra'n arbennig yn fwy helaeth yn ogystal â'r dull safonol. Rydym wedi dweud y byddai'n anodd costio dewisiadau amgen o'r fath gydag unrhyw hyder oherwydd y byddai'r costau'n amrywio yn ôl yr amgylchiadau unigol. Serch hynny, ein barn ni yw mai un o fanteision dull safonol yw cost-effeithlonrwydd a byddai hyn yn cael ei danseilio petai ein polisi'n caniatáu dulliau sydd wedi'u teilwra'n arbennig lle y gellid yn rhesymol fod wedi defnyddio'r dull safonol. Drwyddi draw, barn yr Ymddiriedolaeth o hyd yw mai mynnu mai darparu cynnyrch safonol yr iPlayer ar gyfer syndiceiddio cynnwys ar-alw sydd, gan amlaf, yn sicrhau'r gwerth gorau am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

Dadansoddi'r effaith gystadleuol a'r effaith ar y farchnad

3.3.10. Wrth ystyried ymatebion rhanddeiliaid, nid ydym wedi newid ein safbwynt ynglŷn ag effaith gystadleuol y polisi a'r agwedd ddiwygiedig na'i heffaith ar y farchnad.

3.3.11. Yn ein casgliadau dros dro, ystyriwyd pryderon rhanddeiliaid, yn ogystal â'r effaith statig a deinamig bosibl ar y farchnad. Yn sgil yr ystyriaethau hyn, datblygodd yr Ymddiriedolaeth agwedd fwy hyblyg at syndiceiddio, agwedd a oedd yn canolbwyntio mwy ar y gynulleidfa ac un nad oedd yn seiliedig rhagor ar gyfres o safonau technegol.

3.3.12. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gredu mai'r ffordd orau o sicrhau gwerth cyhoeddus a'r dibenion cyhoeddus drwy syndiceiddio yw drwy gyfrwng cynnyrch safonol yr iPlayer, gan ganiatáu gwyro oddi wrth y dull hwn ar sail gallu technegol neu ddichonoldeb economaidd.

Asesu opsiynau amgen

3.3.13. Nid yw ystyried ymatebion rhanddeiliaid wedi newid ein hasesiad o'r opsiynau amgen fel y'u rhestrir yng nghasgliadau'r polisi diwygiedig.

3.3.14. Mae'r Ymddiriedolaeth yn dal i gredu na fyddai'r opsiynau amgen a ystyriwyd gennym yn ein casgliadau dros dro yn cyflawni'r prif egwyddorion a'r dibenion cyhoeddus i'r un graddau ag y byddai cynnyrch safonol yr iPlayer. Er y gallai opsiynau o'r fath olygu llai o effaith niweidiol bosibl ar y farchnad, mae gwir berygl o hyd na fyddai datblygu dulliau amgen yn llwyddo i gyflawni egwyddorion wynebu'r-cyhoedd y BBC a'i dibenion cyhoeddus, a/na dyletswyddau eraill y BBC megis sicrhau gwerth am arian.

## 3.4. Casgliadau

3.4.1. Ar sail yr asesiad hwn, mae'r Ymddiriedolaeth wedi penderfynu mabwysiadu, gyda nifer o fân newidiadau, y polisi diwygiedig a'r agwedd ddiwygiedig at syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC fel y'u nodir yng nghasgliadau'r polisi diwygiedig a gyhoeddwyd ym mis Tachwedd 2011.

3.4.2. Bwriedir i'r polisi terfynol newydd (gweler Atodiad 1) sicrhau bod syndiceiddio'n digwydd er budd cyffredinol talwyr ffi'r drwydded a bod y deunydd y mae'r polisi'n ymwneud ag ef yn cael ei syndiceiddio lle bo hynny er budd iddynt. Credwn fod gwerth cyhoeddus yn gyffredinol i syndiceiddio a'i bod er budd talwyr ffi'r drwydded i allu cael gafael ar gynnwys ar-alw'r BBC ar gynifer o blatfformau a dyfeisiau ag sy'n bosibl.

3.4.3. Wrth wraidd polisi'r Ymddiriedolaeth, mae'r egwyddorion wynebu'r-cyhoedd y bwriedir iddynt sicrhau gwerth cyhoeddus a chyflawni'r dibenion cyhoeddus. Wrth restru'r egwyddorion hyn, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn ceisio gorfodi un ateb technegol yn unig. Serch hynny, credwn mai'r ffordd orau o wireddu'r egwyddorion hyn fydd cynnig i ddarpar bartneriaid lwybr uniongyrchol at holl ystod cynnwys y BBC, drwy eu platfform neu eu dyfais, o fewn amgylchedd y BBC. Ar hyn o bryd, mae hyn yn golygu un o gynhyrchion safonol y BBC, megis yr iPlayer, a ddarperir dros y rhyngrwyd.

3.4.4. Rydym yn derbyn y gall anawsterau godi o bryd i'w gilydd o ran ymarferoldeb technegol neu ddichonolrwydd economaidd, sy'n cyfiawnhau trefniadau arbennig sy'n defnyddio model gwahanol. Serch hynny, bydd angen i unrhyw drefniant arbennig o'r fath gael ei seilio ar resymau clir iawn ac nid yw'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd achosion o'r fath nac yn gyffredin nac ychwaith yn hawdd eu cyfiawnhau.

# 4. Penderfyniad terfynol yr Ymddiriedolaeth

## 4.1. Dyletswyddau'r Ymddiriedolaeth

4.1.1. Yn ystod y broses adolygu, mae'r Ymddiriedolaeth wedi llunio'i barn ddiwygiedig am syndiceiddio ac wedi datblygu'r polisi arfaethedig ar gyfer syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC, ar ôl ystyried:

- Ymatebion i'r ymgynghori gan unigolion a phobl o'r diwydiant
- Sylwadau eraill gan y diwydiant drwy gyfarfodydd â rhanddeiliaid
- Yr adroddiadau annibynnol a baratowyd gan arbenigwyr, Screen Digest a Decipher a gwaith ymchwil perthnasol arall
- Cyflwyniadau'r Bwrdd Gweithredol
- Dadansoddiad Uned yr Ymddiriedolaeth

4.1.2. Rydym hefyd wedi ystyried ein dyletswyddau cyffredinol o dan Erthygl 23 o'r Siarter a'n dyletswyddau cyfreithiol eraill. Yn benodol, ystyriwyd rôl yr Ymddiriedolaeth yn cynnal budd cyhoeddus yn y BBC, yn enwedig felly fuddiannau talwyr ffi'r drwydded. Yn benodol, ond nid yn unig hynny, credwn inni:

- Gynrychioli buddiannau talwyr ffi'r drwydded o ran ystyried y gwerth cyhoeddus a gaent yn sgil syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC
- Sicrhau annibyniaeth y BBC drwy roi proses annibynnol ar waith i ystyried a datblygu'r polisi arfaethedig
- Asesu'n ofalus ac yn briodol farn talwyr ffi'r drwydded drwy gyfnodau o ymgynghori ffurfiol a thrwy ystyried gwaith ymchwil perthnasol ymhlith y gynulleidfa
- Rhoi stiwardiaeth gadarn ar waith yng nghyswllt arian cyhoeddus drwy gynnal dadansoddiad gwerth am arian sydd wedi goleuo ein barn ddiwygiedig am y polisi arfaethedig
- Rhoi sylw i effaith gystadleuol gweithgareddau'r BBC ar y farchnad ehangach drwy ystyried ymatebion gan y diwydiant i'r ymgyngoriadau, cyfarfod ag ymatebwyr o fyd y diwydiant a dadansoddi unrhyw effaith gystadleuol ac effaith ar y farchnad y gallai'r polisi ei chael.
- Sicrhau bod y BBC yn cadw at safonau uchel o ran bod yn agored ac yn dryloyw drwy gyhoeddi'r ddogfen benderfyniad hon, yr ymatebion anghyfrinachol i'r ymgynghoriad diweddaraf, a'r deunydd sylfaenol perthnasol y dibynnwyd arno wrth benderfynu

4.1.3. Mae'r Ymddiriedolaeth wedi cael cyngor cyfreithiol breintiedig hefyd ynglŷn ag a yw'r polisi arfaethedig yn cydymffurfio â chyfraith gystadleuaeth (gan gynnwys cyfraith cymorth gwladol) ac mae wedi ystyried y cyngor hwnnw.

## 4.2. Y polisi terfynol a safbwynt yr Ymddiriedolaeth

4.2.1. Rydym bellach wedi ystyried yr ymatebion i'r ymgynghori ac wedi gwneud nifer fach o fân newidiadau i'r polisi diwygiedig, fel yr esboniwyd yn fanylach yn yr adrannau blaenorol.

4.2.2. Yn y ddogfen hon, ceir ein penderfyniad terfynol ac mae'n disgrifio'r polisi terfynol ar gyfer syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC yn Atodiad 1. Mae'r polisi terfynol i'w weld ar ein gwefan hefyd.

4.2.3. Mae'r Ymddiriedolaeth bellach wedi cymeradwyo'r polisi terfynol hwn sy'n egluro'r agwedd at syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC. Daw i rym ar unwaith ac mae'n disodli'r polisi blaenorol a gyhoeddwyd yn 2007.

## 4.3. Canllawiau syndiceiddio

4.3.1. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn gofyn i'r Bwrdd Gweithredol gyhoeddi canllawiau syndiceiddio sy'n dangos sut mae'n bwriadu rhoi'r polisi terfynol hwn ar waith. Wrth baratoi'r canllawiau hyn, disgwyliwn i'r Bwrdd Gweithredol roi sylw dyledus i farn rhanddeiliaid a fynegwyd yn ystod ein hadolygiad gan ddangos dealltwriaeth ymarferol o'u pryderon.

4.3.2. Bydd gofyn i'r Ymddiriedolaeth ystyried a chymeradwyo'r canllawiau hyn.

4.3.3. Rhaid i'r canllawiau fod yn gydwedd â'r polisi terfynol a rhaid eu dehongli'n unol â'r polisi hwnnw. Os bydd anghysondeb o gwbl, telerau'r polisi terfynol fydd drechaf.

4.3.4. Disgwyliwn i'r canllawiau fod ar gael ar wefan y BBC o fewn tri mis i gyhoeddi'r polisi terfynol hwn. Ar ôl eu cyhoeddi, disgwyliwn i'r Bwrdd Gweithredol barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid perthnasol er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n dal i fod yn addas at y diben.

## 4.4. Trefniadau pontio

4.4.1. Noda'r Ymddiriedolaeth fod y rhan fwyaf o'r trefniadau syndiceiddio presennol yn cael eu darparu drwy gynnyrch safonol yr iPlayer. Serch hynny, ac ystyried telerau ein polisi terfynol, efallai y bydd angen rhywfaint o drefniadau pontio er mwyn sicrhau bod pob trefniant yn cydymffurfio â'r polisi newydd.

### Atodiad 1. Polisi ar gyfer syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC

# Syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC

## Pwrpas

1. Bwriedir i'r polisi hwn egluro'r sefyllfa i drydydd partïon, i Fwrdd Gweithredol y BBC (Y Bwrdd Gweithredol o hyn ymlaen) ac i dalwyr ffi'r drwydded ynglŷn â'r canlynol:
   - Y telerau a ddylai fod ar waith ar gyfer syndiceiddio cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar-alw'r BBC a'i ddata cysylltiedig[30]
   - Y broses a ddefnyddir gan Ymddiredolaeth y BBC i asesu'r trefniadau newydd
2. Mae'n disodli polisi syndiceiddio ar-alw blaenorol 2007 a bydd y Bwrdd Gweithredol yn paratoi set o ganllawiau gweithredol yn gefn iddo.
3. Mae syndiceiddio'n cyfeirio at ddarparu cynnwys gan y BBC ar gyfer platfformau trydydd parti (e.e. darlledwyr eraill sy'n defnyddio cêbl, IPTC, DTT neu loeren i ddosbarthu), dyfeisiau (e.e. blychau pen-set, ffonau symudol, chwaraewyr MP3, cyfrifiaduron tabled, setiau teledu, chwaraewyr a chonsolau gemau integredig), yn ogystal â phlatfformau ar lein (e.e. rhaglenni rhyngrwyd megis Facebook ac YouTube) er mwyn i dalwyr ffi'r drwydded allu defnyddio'r platfformau a'r dyfeisiau hyn i gael gafael ar gynnwys ar-alw'r BBC.
4. Rôl Ymddiriedolaeth y BBC (Yr Ymddiriedolaeth o hyn ymlaen) yw cynrychioli buddiannau talwyr ffi'r drwydded ac asesu eu barn yn ofalus ac yn briodol. Wrth gyflawni ei swyddogaethau, rhaid i'r Ymddiriedolaeth weithredu er budd y cyhoedd a sicrhau bod dibenion cyhoeddus y BBC yn cael eu hyrwyddo'n effeithiol. Mae'r Siarter yn gosod dyletswyddau penodol eraill ar yr Ymddiriedolaeth; rhaid iddi roi sylw i effaith gystadleuol gweithgareddau'r BBC ar y farchnad ehangach a sicrhau bod y BBC yn cadw at safonau uchel o ran bod yn agored ac yn dryloyw.
5. Bwriada'r Ymddiriedolaeth fabwysiadu datganiad polisi ynglŷn â syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC a dal y Bwrdd Gweithredol yn gyfrifol am gydymffurfio ag ef. Gwaith y Bwrdd Gweithredol yw ystyried a gwneud trefniadau syndiceiddio gyda thrydydd partïon[31] fesul achos, yn unol â'r polisi.
6. Bwriedir i'r egwyddorion a'r gweithdrefnau sydd yn y polisi hwn sicrhau bod materion perthnasol yn cael eu hystyried yn briodol gyda golwg ar yr holl weithgarwch syndiceiddio newydd a bod effaith unrhyw drefniadau'n cael ei hasesu'n iawn.

[30] 'Metadata'.

[31] Er bod trydydd partïon o'r fath yn debygol o fod yn gwmnïau darlledu, cyfryngau neu dechnoleg, fe allent hefyd fod yn fathau eraill o sefydliadau, megis sefydliadau heb fryd ar wneud elw, elusennau neu grwpiau eraill o'r fath.

## Cwmpas

7. Mae'r polisi hwn yn ymwneud â threfniadau ar gyfer syndiceiddio holl gynnwys y BBC, yn benodol:

- Cynnwys teledu hyd-llawn, a ddarlledwyd eisoes ar wasanaethau llinellol y BBC ac y bwriedir iddo gael ei weld ar ei haeddiant ei hun (e.e. ystod y rhaglenni a ddarlledir ar sianelau teledu'r BBC)
- Cynnwys radio hyd-llawn, a ddarlledwyd eisoes ar wasanaethau llinellol y BBC (e.e. cynnwys a ddarlledwyd ar wasanaethau radio'r BBC ac y gwrandewir arno drwy gyfrwng cynhyrchion megis yr iPlayer, neu ar ffurf podlediadau ac ati)
- Cynnwys ffurf-fer, (e.e. rhagflasau hyrwyddo, clipiau newyddion a chynnwys o fath arall ar BBC ar lein)
- Nodweddion, swyddogaethau a metadata cysylltiedig

8. Mae'r polisi wedi'i gyfyngu i ddarparu deunyddiau a ganiateir o dan drwyddedau gwasanaeth presennol (h.y. nid yw'n ehangu cwmpas trwydded o'r fath).[32]

9. Nid yw'r polisi hwn ond yn berthnasol i syndiceiddio cynnwys gwasanaeth cyhoeddus ar-alw'r BBC. Nid yw ond yn ymwneud â chynnwys y Deyrnas Unedig ac nid yw'n berthnasol i ddeunydd a ddarperir drwy weithgareddau masnachol y BBC.

## Amcanion - gwasanaethu buddiannau talwyr ffi'r drwydded

10. Mae'r Ymddiriedolaeth yn gweithredu er budd y cyhoedd ac mae'n cynrychioli buddiannau talwyr ffi'r drwydded. Felly, bwriedir i'r polisi hwn sicrhau bod syndiceiddio'n digwydd er budd cyffredinol talwyr ffi'r drwydded a bod y deunydd y mae'r polisi'n ymwneud ag ef yn cael ei syndiceiddio lle bo hynny er budd iddynt.

11. Credwn fod gwerth cyhoeddus yn gyffredinol i syndiceiddio a'i bod er budd talwyr ffi'r drwydded i allu cael gafael ar gynnwys ar-alw'r BBC ar gynifer o blatfformau a dyfeisiau ag sy'n bosibl, yn unol â'r polisi hwn. Yn y cyswllt hwn, mae gan y BBC ddyletswyddau penodol o dan Gymal 12 o Gytundeb y BBC:

*Rhaid i'r BBC wneud popeth sy'n rhesymol ymarferol i sicrhau bod gwylwyr, gwrandawyr a defnyddwyr eraill (a dibynnu ar yr amgylchiadau) yn gallu cael gafael ar Wasanaethau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig a fwriedir ar eu cyfer, neu elfennau o'u cynnwys, mewn ystod o ffyrdd hwylus a chost-effeithiol sydd ar gael neu a all fod ar gael yn y dyfodol.*

12. Nid yw hyn yn golygu ei bod yn rhaid i'r BBC ddarparu ei chynnwys ar bob platfform a dyfais: byddai hynny'n anymarferol (yn anad dim oherwydd na fyddai hynny'n golygu bod arian ffi'r drwydded yn cael ei ddefnyddio yn y ffordd orau). Serch hynny, dylai ymagwedd gyffredinol y BBC at syndiceiddio gael ei thywys bob tro gan y gred y dylai'r trefniadau anelu at wasanaethu talwyr ffi'r drwydded, drwy eu galluogi i gael gafael yn hwylus ar ystod lawn cynnwys llinellol y BBC sydd

[32] Ar wahân i gynnwys sydd wedi'i gomisiynu a'i osod at ddibenion marchnata.

wedi'i ddarlledu'n ddiweddar, ni waeth pa blatfform neu ddyfais a ddewisir ganddynt.

13. Rhaid ystyried ffactorau eraill hefyd, megis gwerth am arian[33] a'r effaith gystadleuol.[34] Yn benodol, ac ystyried sut mae platfformau a dyfeisiau'n cynyddu ac yn datblygu'n gyflym, ni fyddai darparu ei chynnwys ar bob platfform a dyfais yn sicrhau gwerth am arian iddi. Er mwyn gwneud hynny mewn unrhyw un achos penodol, bydd gofyn cael cyfiawnhad clir a chryf.

14. Felly, mae'r polisi hwn yn dweud beth y byddai'r Ymddiriedolaeth yn ei ystyried yn 'rhesymol ymarferol' o ran trefniadau syndiceiddio, gan roi sylw i ystod lawn y dibenion, y dyletswyddau a'r amcanion cyhoeddus.

## Syndiceiddio cynnwys ar-alw'r BBC

15. Mae'r adran hon (paragraffau 16-22) yn rhestru'r prif egwyddorion a'r meini prawf y dylai'r BBC seilio syndiceiddio'i chynnwys ar-alw arnynt. Yna, amrywir yr egwyddorion a'r meini prawf hyn fymryn, a dibynnu ar y math o gynnwys fel y'i disgrifir isod (paragraffau 28-33).

16. Er mwyn sicrhau gwerth cyhoeddus a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus, dylai'r holl drefniadau syndiceiddio gael eu cynllunio er mwyn i dalwyr ffi'r drwydded:

a) Allu cael gafael yn rhwydd ar adeg hwylus ar holl ystod cynnwys y BBC[35]

b) Gallu dod o hyd i gynnwys y BBC yn gyflym ac yn rhwydd ar blatfformau a dyfeisiau trydydd partïon, er enghraifft, drwy gysylltu â chynnwys neu gael gafael arno drwy gyfrwng systemau llywio trydydd parti, megis EPG neu chwilio.

c) Profi cynnwys sydd o dan reolaeth olygyddol gan y BBC, ac sy'n caniatáu i'r BBC eu tywys at gynnwys arall na fyddent o reidrwydd yn cael eu denu ato'n naturiol ond a allai fod yn gyfrwng gwybodaeth a mwynhad iddynt

d) Gallu gweld yn rhwydd mai cynnwys y BBC ydyw a gallu gwahaniaethu rhyngddo a chynnwys o ffynonellau eraill

e) Profi cynnwys y BBC mewn mannau ac mewn cyd-destunau priodol yn unig

f) Cael profiad o safon uchel (e.e. rhwydd ei ddefnyddio, ansawdd y lluniau a'r sain)

---

[33] Mae'r Siarter yn gosod dyletswydd ar yr Ymddiriedolaeth i 'sicrhau stiwardiaeth gadarn dros arian cyhoeddus', sy'n golygu bod y polisi hwn yn ystyried bod angen i drefniadau syndiceiddio'r BBC sicrhau gwerth am arian.

[34] Mae'r Siarter yn mynnu ei bod yn rhaid i'r Ymddiriedolaeth 'roi sylw i effaith gystadleuol gweithgareddau'r BBC ar y farchnad ehangach'; ac yn unol â hynny, drwy ei Datganiad Polisi ar Effaith Gystadleuol, mae'r Ymddiriedolaeth yn 'mynnu bod y BBC, tra'i bod bob amser yn sicrhau ei bod yn cyflawni ei Dibenion Cyhoeddus ac yn ystyried ei dyletswyddau eraill yn y Siarter a'r Cytundeb, yn ymdrechu i sicrhau cyn lleied o effaith gystadleuol negyddol ar y farchnad ehangach ag sy'n bosibl. Gelwir y gofyniad hwn yn "Egwyddor Effaith Gystadleuol".

[35] Fel rhan o'i strategaeth ehangach, gall y BBC syndiceiddio cynhyrchion eraill hefyd sy'n cael eu dethol yn olygyddol gan y BBC, sy'n ategu ei chynnig ehangach ac sy'n eistedd ochr yn ochr â mynediad at ystod lawn y rhaglenni sydd ar gael ar gynnyrch safonol yr iPlayer, er enghraifft un o gynhyrchion syndiceiddio newyddion y BBC. Byddai cynhyrchion o'r fath yn syndiceiddio cynnwys a ddetholid yn olygyddol gan y BBC yn ogystal â'r ystod lawn a ddarperid gan iPlayer y BBC. Rhaid iddynt gydymffurfio â fframwaith y trwydded gwasanaeth ac â'r asesiadau rheoleiddio perthnasol fel y maent yng Nghytundeb y BBC.

g) Gallu cael gafael ar gynnwys yn ddi-dâl (sy'n golygu ar lefel yr haen mynediad neu'r hyn sy'n cyfateb iddi yng nghyswllt gwasanaethau tanysgrifio), a chynnwys sydd heb hysbysebion a nawdd

h) Gallu cael gafael ar nodweddion rheolaeth rhieni a hygyrchedd, megis isdeitlau a sainddisgrifio, a'r rheini sy'n gysylltiedig â'r ddewislen a'r rhyngwyneb defnyddiwr

17. A hithau'n gwarchod ffi'r drwydded, rhaid i'r Ymddiriedolaeth sicrhau stiwardiaeth gadarn dros arian cyhoeddus; felly rhaid i'r holl drefniadau syndiceiddio ddangos gwerth am arian i dalwyr ffi'r drwydded.

18. Yn ogystal â'r egwyddorion wynebu'r-cyhoedd hyn, mae'r Ymddiriedolaeth yn cydnabod bod ffactorau eraill yn berthnasol hefyd wrth ystyried unrhyw drefniant syndiceiddio arbennig, yn benodol, bod angen sicrhau:

- Cwmpas digonol i'r BBC gyflwyno gwelliannau ac arloesi wrth i ddisgwyliadau'r gynulleidfa esblygu a thechnoleg ddatblygu, yn gyson â thelerau'r polisi hwn a lle y gall gwelliannau ac arloesi o'r fath sicrhau gwerth clir i'r cyhoedd
- Bod y BBC yn dileu cynnwys ar-alw'n ddi-oed lle bydd gofyn am resymau cyfreithiol neu er mwyn cydymffurfio
- Bod data cywir a phrydlon am ddefnyddwyr yn cael ei ddarparu ar gyfer y BBC (e.e. niferoedd gwylio)

19. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynnu hefyd bod y Bwrdd Gweithredol yn cydymffurfio â phob gofyniad cyfreithiol a rheoleiddiol, gan gynnwys cyfraith cymorth gwladol a chanllawiau golygyddol y BBC a'r fframwaith masnachu teg. Yn benodol, dylai sicrhau ei bod yn gweithredu ar sail deg, resymol heb wahaniaethu wrth wneud trefniadau syndiceiddio.

20. Mae'r Ymddiriedolaeth yn mynnu hefyd bod y BBC yn darparu metadata ar gyfer rhanddeiliaid fel rhan o'r trefniant syndiceiddio, er mwyn hwyluso darganfod cynnwys ar-alw'r BBC, ac mewn modd sy'n gyson â'r egwyddorion ym mharagraffau 16-18.

21. Nid yw'r Ymddiriedolaeth yn pennu un dull penodol ar gyfer y mecanwaith darparu sydd i'w ddefnyddio mewn trefniadau syndiceiddio, ond mae'n disgwyl i bob trefniant o'r fath gydymffurfio â'r egwyddorion a'r gofynion sydd ym mharagraffau 16-20 a'i fod yn cydymffurfio â thelerau'r polisi hwn.

22. Yn olaf, ni ddylai unrhyw ddeunydd sy'n cael ei syndiceiddio gan y BBC ond gynnwys dolennu allanol at ddarparwyr eraill lle y caniateir hyn gan y platfform.

## Dull

23. Wrth restru'r egwyddorion hyn, nid yw'r Ymddiriedolaeth yn ceisio gorfodi un ateb technegol yn unig. Serch hynny, mae'n credu mai'r ffordd orau o wireddu'r egwyddorion hyn fydd cynnig llwybr uniongyrchol i ddarpar bartneriaid at holl ystod cynnwys y BBC, drwy eu platfform neu eu dyfais, o fewn amgylchedd y BBC. Mae hyn yn golygu, ar hyn o bryd, un o gynhyrchion safonol y BBC, megis yr iPlayer, a ddarperir dros y rhyngrwyd, ond mae'r egwyddorion a restrir yn y polisi hwn yr un mor berthnasol i unrhyw gynhyrchion syndiceiddio yn y dyfodol.

24. Gwaith y Bwrdd Gweithredol fydd penderfynu sut mae syndiceiddio'i gynnwys o fewn telerau'r polisi hwn, ond wrth wneud penderfyniadau ynglŷn â gwneud hynny, rhaid iddo roi sylw llawn i'r ffaith bod angen sicrhau bod y rhan fwyaf helaeth o blatfformau a dyfeisiau ar y farchnad yn gallu cael gafael uniongyrchol ar un o gynhyrchion safonol yr iPlayer neu ar unrhyw gynnyrch syndiceiddio yn y dyfodol.
25. Fodd bynnag, fe all amgylchiadau godi o bryd i'w gilydd, sy'n cyfiawnhau trefniadau arbennig sy'n gwyro oddi wrth y model hwn. Wrth benderfynu a ddylid gwneud trefniant o'r fath, dylai'r Bwrdd Gweithredol ystyried pob ffactor perthnasol, gan gynnwys y gwahanol amgylchiadau sy'n wynebu pob parti ac unrhyw ffactorau cyfyngol, sy'n golygu nad yw'n dechnegol ymarferol neu'n economaidd ymarferol mabwysiadu un o gynhyrchion safonol y BBC.
26. Bydd angen i'r sail ar gyfer unrhyw drefniant arbennig fod yn glir iawn ac nid yw'r Ymddiriedolaeth yn rhagweld y bydd achosion o'r fath nac yn gyffredin nac ychwaith yn hawdd eu cyfiawnhau. At hynny, bydd unrhyw ddatblygiad o'r fath, gan gynnwys penderfyniad ynglŷn â phwy fydd yn talu'r costau cysylltiedig, yn gorfod cydymffurfio'n barhaus â'r egwyddorion a'r gofynion sydd ym mharagraffau 16-20.
27. Lle bydd cynigion ar gyfer trefniant arbennig wedi'u hystyried ond heb eu cymeradwyo, rhaid i'r Bwrdd Gweithredol egluro i'r parti perthnasol ar ba sail y gwnaeth ei benderfyniad.

## Rhoi egwyddorion a meini prawf ar waith ar gyfer cynnwys ar-alw'r BBC:

### Cynnwys teledu hyd-llawn

28. Disgwyliwn i'r trefniadau syndiceiddio sy'n ymwneud â chynnwys teledu hyd-llawn gydymffurfio â'r holl egwyddorion a'r gofynion sydd ym 16-20.

### Cynnwys radio hyd-llawn

29. Wrth ystyried syndiceiddio cynnwys radio, rydym wedi ystyried y gwahanol ffyrdd o ddefnyddio cynnwys o'r fath. Mae gwahaniaethau amlwg ym mhrofiad y defnyddiwr wrth iddo ddefnyddio cynnwys teledu hyd-llawn ar-alw, o'i gymharu â chynnwys radio ar-alw. Un agwedd yw bod cynnwys sain yn fwy tebygol o gael ei ddefnyddio mewn amgylchedd symudol, megis gwrando ar bodlediad drwy chwaraewr MP3, er enghraifft. Er ein bod yn mynnu y dylid ei gynnwys o fewn trefniant syndiceiddio ar un o gynhyrchion safonol y BBC, rydym hefyd yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd yng nghyswllt trefniadau radio yn unig, er mwyn cydnabod sut mae'r farchnad hon wedi datblygu.
30. Er mwyn sicrhau gwerth cyhoeddus a hyrwyddo'r dibenion cyhoeddus, dylai pob trefniant ar gyfer cynnwys radio hyd-llawn gael ei gynllunio i sicrhau ei fod yn gyson â'r egwyddorion sydd ym mharagraffau 16-20. Serch hynny, ac ystyried natur y ffordd y defnyddir radio ar-alw, nid yw'r egwyddorion (a), (c) ac (h) ym mharagraff 16 yn berthnasol i'r trefniadau syndiceiddio hyn.

31. Er bod radio'n perthyn i fframwaith gwahanol i deledu, ac y gellir felly ei syndiceiddio mewn gwahanol ffyrdd, mae gwerth cyhoeddus sylweddol ynghlwm wrth gynnwys deunydd o'r fath yn un o gynhyrchion safonol y BBC. Felly, disgwyliwn i'r Bwrdd Gweithredol ei ddarparu hefyd fel rhan o'i gynnig safonol ar iPlayer.

## Cynnwys ffurf-fer

32. Mae ein hagwedd at syndiceiddio cynnwys ffurf-fer, gan gynnwys clipiau newyddion, cynnwys hyrwyddo a rhagflasau, a chynnwys o fath arall ar wefan y BBC, yn cynnig mwy o hyblygrwydd. Mae'r agwedd hyblyg hon wedi'i seilio ar y llu o wahanol ffyrdd y gellir defnyddio'r cynnwys hwn, o glipiau byrion ar safleoedd fideo i rannu erthyglau newyddion drwy safleoedd rhwydweithio cymdeithasol.

33. Mae trefniadau syndiceiddio sy'n cynnwys deunydd ffurf-fer yn dal i ddod o dan ddarpariaethau perthnasol y polisi hwn (sydd ym mharagraffau 16-20). Er hynny, oherwydd natur y ffordd y defnyddir cynnwys ffurf-fer ar-alw a'r amgylcheddau lle y bydd hyn yn digwydd, nid yw'r egwyddorion (a), (b), (c) ac (h) ym mharagraff 16 yn berthnasol i drefniadau o'r fath.

## Y broses ar gyfer trefniadau newydd

34. Mae gofyn i'r Ymddiriedolaeth roi'r Prawf Gwerth Cyhoeddus ar waith ar bob newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Felly, mae'n gyfrifol yn y pen draw am benderfynu a fyddai trefniadau syndiceiddio newydd yn golygu newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

35. Barn yr Ymddiriedolaeth yn gyffredinol yw bod trefniadau syndiceiddio sy'n cydymffurfio â'r egwyddorion uchod[36], yn debygol o ddod o fewn telerau trwyddedau gwasanaeth sy'n bodoli eisoes ac nad ydynt yn debygol o olygu newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig.

36. Serch hynny, mae'n bosibl y bydd rhai cynigion mor fawr eu cwmpas nes y gallent olygu newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig.[37]

37. Y Bwrdd Gweithredol sy'n gyfrifol am benderfynu pa mor arwyddocaol neu beidio yw trefniant syndiceiddio yn y lle cyntaf. Os bydd yn meddwl bod cynnig yn golygu newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig, rhaid iddo'i gyfeirio at yr Ymddiriedolaeth. Yr Ymddiriedolaeth sydd â'r penderfyniad terfynol ynglŷn ag a yw trefniant yn golygu newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig. Wrth farnu hynny, rhaid iddi ystyried effaith, newydd-deb, hyd a chost yn unol â'r hyn sydd yng Nghymal 25 o'r Cytundeb. Os bydd yr Ymddiriedolaeth yn penderfynu nad oes angen Prawf Gwerth Cyhoeddus, yna, rhagwelir na fydd gofyn cael rhagor o gymeradwyaeth gan yr Ymddiriedolaeth (oni fydd rheolau, protocolau, polisïau neu godau eraill yr Ymddiriedolaeth yn berthnasol).

---

[36] Ym mharagraffau 16-20

[37] Wrth benderfynu a all trefniadau syndiceiddio newydd fod yn arwyddocaol, yr ystyriaethau perthnasol yw effaith, goblygiadau ariannol, newydd-deb a hyd ynghyd â'r rhagdybiaeth bod unrhyw newid y mae gofyn cael trwydded gwasanaeth newydd ar ei gyfer neu newid i brif nodweddion trwydded sy'n bodoli eisoes yn arwyddocaol.

38. Mae'r Ymddiriedolaeth yn meddwl hefyd ei bod yn bwysig peidio â rhoi gormod o weithdrefnau biwrocrataidd diangen ar waith neu rai a fydd yn llesteirio ac yn rhwystro'r Bwrdd Gweithredol a'i bartneriaid masnachol yn ddiangen rhag gwneud trefniadau syndiceiddio newydd a all fod o werth sylweddol i'r cyhoedd, yn enwedig yn y farchnad hon sy'n datblygu'n gyflym a lle y gallai oedi leihau gwerth y trefniadau arfaethedig yn sylweddol. Felly, ni fyddai'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i'r Bwrdd Gweithredol geisio cymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth o flaen llaw ar gyfer trefniadau o'r fath, ac eithrio o dan yr amgylchiadau uchod.

39. Er mwyn monitro gweithgarwch yn briodol felly, mae'r Ymddiriedolaeth yn gofyn i'r Bwrdd Gweithredol:

- Roi gwybod iddi am unrhyw drefniant syndiceiddio newydd sydd, yn ei farn ef, yn golygu newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig, naill ai ynddo'i hun neu yn sgil ei effaith gronnus, er mwyn i'r Ymddiriedolaeth ei ystyried
- Rhoi diweddariad bob chwe mis ynglŷn â phob trefniant syndiceiddio a ystyrir yn y cyfnod hwnnw, gan gynnwys ar ba sail y gwnaethpwyd unrhyw drefniadau arbennig. Lle bydd trefniant arbennig wedi'i ystyried neu fod cais am drefniant o'r fath gan drydydd parti ond nad yw wedi'i gymeradwyo gan y Bwrdd Gweithredol, bydd yr Ymddiriedolaeth hefyd yn gofyn am ddiweddariad ynglŷn â'r rheswm dros benderfyniad y Bwrdd Gweithredol i'w wrthod
- O fewn 12 mis i'r adeg pan ddaw'r polisi newydd i rym, cyflwyno adroddiad i'r Ymddiriedolaeth ynglŷn â'r trefniadau gweithredol, ar lefel gydgrynhoi, yn y meysydd a ganlyn:
  - Dangosyddion perfformiad allweddol ar gyfer datblygu, cymorth, profi, monitro a chydymffurfio
  - Costau, gan gynnwys y rheini sy'n gysylltiedig â dosbarthu

40. Fe all yr Ymddiriedolaeth fynnu bod y Bwrdd Gweithredol yn gohirio neu'n canslo unrhyw drefniadau syndiceiddio (neu gasgliad o drefniadau o'r fath), a allai yn ei barn hi olygu newid sylweddol i Wasanaethau Cyhoeddus y Deyrnas Unedig ac nad yw wedi cael cymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth ar eu cyfer o flaen llaw. Lle na cheisir cymeradwyaeth o flaen llaw cyn cwblhau'r trefniadau hynny, rhaid i'r Bwrdd Gweithredol sicrhau ei fod yn gallu atal darparu'r deunydd os digwyddir rhoi Prawf Gwerth Cyhoeddus ar waith, ac y gall derfynu darparu'r deunydd yn llwyr os digwydd i'r Ymddiriedolaeth benderfynu peidio â chymeradwyo'r trefniant, heb i hynny arwain at ganlyniadau ariannol niweidiol i'r BBC.

## Canllawiau syndiceiddio ar-alw

41. Rhaid i'r Bwrdd Gweithredol baratoi canllawiau syndiceiddio ar-alw sy'n esbonio'n fwy manwl sut y bydd yn rhoi'r polisi ar waith ar lefel weithredol. Yn benodol, dylai'r rhain nodi'r gofynion ychwanegol ar gyfer gwarchod brand y BBC, sicrhau dilysrwydd technegol, cyflawni'r dibenion cyhoeddus hyd yr eithaf a sicrhau profiad o safon i ddefnyddwyr. Rhaid i'r canllawiau ddilyn y dull, y rhesymeg a'r egwyddorion sydd yn y polisi. Dylid eu datblygu, ac ar ôl eu cyhoeddi, eu dehongli yn unol â'r polisi syndiceiddio.

42. Wrth iddo lunio'r canllawiau, mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i'r Bwrdd Gweithredol roi sylw dyledus i farn rhanddeiliaid a fynegwyd yn ystod ein hadolygiad. Ar ôl eu cyhoeddi, disgwyliwn i'r Bwrdd Gweithredol barhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid er mwyn sicrhau bod y canllawiau'n dal i fod yn addas at y diben.

43. Mae'r Ymddiriedolaeth yn credu hefyd ei bod yn hanfodol sicrhau bod trefniadau syndiceiddio'n cael eu rhoi ar waith mewn modd tryloyw. Rhaid i'r Bwrdd Gweithredol gyhoeddi digon o wybodaeth am weithrediad technegol yr iPlayer safonol (ac am unrhyw gynhyrchion syndiceiddio yn y dyfodol) sy'n cael eu cynllunio'n arbennig i'w defnyddio'n ymarferol gan wneuthurwyr, gweithredwyr platfformau a darpar bartneriaid eraill.

44. Dylai hyn gynnwys digon o wybodaeth i alluogi trydydd partïon i gynllunio a rheoli eu mapiau datblygu a dylai gynnwys, ond nid hynny'n unig, set o feini prawf gwrthrychol a ddefnyddir i ddiffinio cynhyrchion safonol, mapiau datblygu a chymorth technegol (o ran maint a hyd) ar gyfer fersiynau safonol.

45. Ar ôl eu cyhoeddi, bydd y canllawiau i'w gweld yn www.bbc.co.uk

## Proses adolygu'r polisi

46. Mae cyd-destun y polisi hwn yn symud yn gyflym a bydd technoleg a disgwyliadau'r gynulleidfa'n dal i esblygu. Yn benodol, mae'r ffiniau rhwng gwylio/gwrando byw ac ar-alw, a rhwng cynnwys teledu, radio a ffurf-fer yn debygol o bylu fwyfwy. Felly, bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried a oes angen adolygu'r polisi (gan gynnwys unrhyw ofynion ar i'r Bwrdd Gweithredol baratoi adroddiadau) a'r canllawiau eto erbyn canol 2015 fan hwyraf.

47. At hynny, rhaid i'r Bwrdd Gweithredol adolygu'n barhaus y canllawiau sy'n rhoi prif egwyddorion y polisi hwn ar waith. Rhaid cael cymeradwyaeth yr Ymddiriedolaeth cyn gwneud unrhyw newid sylweddol. Yr Ymddiriedolaeth sydd â'r penderfyniad terfynol ynglŷn ag a oes angen ei chymeradwyaeth cyn newid unrhyw beth.

## Cwynion

48. Yn y lle cyntaf, dylid cyfeirio unrhyw gŵyn ynglŷn â methiant honedig gan y BBC i gydymffurfio â thelerau'r polisi hwn neu â'r canllawiau syndiceiddio ar-alw at y Bwrdd Gweithredol.

49. Os nad yw'r sawl sy'n cwyno'n fodlon ar yr ymateb a gaiff gan y Bwrdd Gweithredol, caiff apelio at yr Ymddiriedolaeth. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ymdrin ag apeliadau drwy'r broses a geir yn y fframwaith masnachu teg, cwynion ac apeliadau. Mae manylion y fframwaith hwnnw ar wefan yr Ymddiriedolaeth, www.bbc.co.uk/bbctrust

50. Bydd yr Ymddiriedolaeth yn ystyried apeliadau, sef y cam terfynol yn y broses gwyno.

## Cyfnod pontio ar gyfer y trefniadau presennol

51. Gyda golwg ar y trefniadau syndiceiddio presennol, mae'r Ymddiriedolaeth yn disgwyl i'r Bwrdd Gweithredol wneud trefniadau pontio gyda thrydydd partïon perthnasol er mwyn sicrhau eu bod yn cydymffurfio â'r polisi a'r canllawiau newydd. Dylai trefniadau o'r fath ganiatáu amser rhesymol ar gyfer unrhyw drefniadau pontio, ond ni ddisgwylir i'r rheini barhau'n hwy na 12 mis ar ôl i'r polisi newydd ddod i rym.[38]

[38] Dim ond o dan amgylchiadau eithriadol y bydd trefniadau pontio hwy yn dderbyniol.